RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:
12/2025
DYDDIAD CYHOEDDI:
06/02/2025

# Arolwg canfyddiadau a chamau gweithredu newid hinsawdd: allbynnau cam 2 yr arolwg

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron
ISBN Digidol 978-1-83715-185-1

Arolwg canfyddiadau a chamau gweithredu newid hinsawdd allbynnau cam 1 yr arolwg

Awdur: Colin Wright

Adroddiad Ymchwil Llawn: Wright; C, (2025*).* Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd Allbynnau Cam 1 yr Arolwg. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 12/2025.
Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/arolwg-canfyddiadau-chamau-gweithredu-newid-hinsawdd-ton-1-2

Safbwyntiau'r ymchwilydd yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid rhai Llywodraeth Cymru o reidrwydd

Os hoffech ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Enw: Laura Entwistle

Is-adran: Y Tîm Ymchwil Hinsawdd ac Amgylchedd

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: YmchwilHinsawddacAmgylchedd@llyw.cymru

**Tabl cynnwys**

Rhestr tablau ........................................................ 2
Rhestr ffigurau ........................................................ 4
Geirfa 7
1. Cyflwyniad ........................................................ 8
2. Patrymau demograffig ........................................................ 11
3. Canfyddiadau ac agweddau ........................................................ 21
4. Ynglŷn â’ch ynni cartref ........................................................ 33
5. Bwyd ........................................................ 44
6. Bywyd dyddiol ........................................................ 50
7. Teithio ........................................................ 55
8. Casgliad ........................................................ 68

**Rhestr tablau**


Tabl 3.1 – Pryder am newid hinsawdd yn ôl rhywedd - ‘Pa mor bryderus ydych chi’n bersonol am newid hinsawdd?’ ....... 22

Tabl 3.2 – Pryder am newid hinsawdd yn ôl oedran – ‘Pa mor bryderus ydych chi’n bersonol am newid hinsawdd?’ ....... 22

Tabl 3.3 – Pryder am newid hinsawdd yn ôl incwm - ‘Pa mor bryderus ydych chi’n bersonol am newid hinsawdd?’ ....... 23

Tabl 3.4 – Cyfran cyfrifol iawn / rhywfaint o gyfrifoldeb am fynd i’r afael â newid hinsawdd: pob ymatebwr, rhywedd, ac oedran – ‘I ba raddau ydych chi’n credu y mae’r canlynol yn gyfrifol am fynd i’r afael â newid hinsawdd?’ ....... 24

Tabl 3.5 – Cyfran cyfrifol iawn / rhywfaint o gyfrifoldeb am fynd i’r afael â newid hinsawdd yn ôl math o ardal – ‘I ba raddau ydych chi’n credu y mae’r canlynol yn gyfrifol am fynd i’r afael â newid hinsawdd?’ ....... 25

Tabl 3.6 – Cyfran cyfrifol iawn / rhywfaint o gyfrifoldeb am fynd i’r afael â newid hinsawdd: pob ymatebwr yn ôl incwm – ‘I ba raddau ydych chi’n credu y mae’r canlynol yn gyfrifol am fynd i’r afael â newid hinsawdd?’ ....... 26

Tabl 3.7 – Cyfrifoldeb personol am atal newid hinsawdd rhag gwaethygu yn ôl rhywedd – ‘I ba raddau ydych chi’n teimlo cyfrifoldeb personol i geisio atal newid hinsawdd rhag gwaethygu?’ ....... 27

Tabl 3.8 – Cred y gall gweithredoedd personol helpu i atal newid hinsawdd rhag gwaethygu yn ôl rhywedd – ‘I ba raddau ydych chi’n teimlo y gall eich gweithredoedd personol eich hun helpu i atal newid hinsawdd rhag gwaethygu?’ ....... 28

Tabl 3.9 – Gwybodaeth am Sero Net, targedau Sero Net a dewisiadau gwyrdd Llywodraeth Cymru – ‘Faint ydych chi’n ei wybod am y canlynol?’ ....... 30

Tabl 4.1 – Dull talu bil ynni yn ôl cyflogaeth – ‘Sut mae eich aelwyd yn talu’r bil ynni ar hyn o bryd?’ ....... 33

Tabl 4.2 – Dull talu bil ynni yn ôl deiliadaeth – ‘Sut mae eich aelwyd yn talu’r bil ynni ar hyn o bryd?’ ....... 34

Tabl 4.3 – Defnydd o fesurydd clyfar yn ôl deiliadaeth ....... 35

Tabl 5.1 – Amlder bwyta mathau o fwyd – ‘Sawl diwrnod yr wythnos ydych chi’n bwyta bob un o’r pethau canlynol fel rheol?’ ....... 44

Tabl 5.2 – Mathau o fwyd sy’n cael eu bwyta yn ôl incwm – bob dydd a 5 i 6 diwrnod – ‘Sawl diwrnod yr wythnos ydych chi’n bwyta bob un o’r pethau canlynol fel rheol?’ ....... 45

Tabl 5.3 – Mathau o fwyd sy’n cael eu bwyta yn ôl oedran – bob dydd a 5 i 6 diwrnod – ‘Sawl diwrnod yr wythnos ydych chi’n bwyta bob un o’r pethau canlynol fel rheol?’ 45

Tabl 7.1 – Mynediad aelwyd at gar yn ôl incwm aelwyd – ‘Sawl cerbyd y mae gan eich aelwyd fynediad rheolaidd atynt? Car’ ....................................................................55
Tabl 7.2 - Mynediad at gerbydau hybrid a thrydan yn ôl incwm ar gyfer aelwydydd â mynediad at o leiaf un car / fan – ‘O’r cerbydau y mae gan eich aelwyd fynediad atynt, faint sy’n drydan a/neu’n hybrid?’ ...................................................................56
Tabl 7.3 – Amlder beicio (beic safonol) o leiaf unwaith yr wythnos yn ôl incwm – Pa mor aml ydych chi’n defnyddio bob un o’r canlynol i deithio o le i le? Beic (safonol).............59
Tabl 7.4 – Amlder peidio â beicio byth (beic safonol) yn ôl oedran - Pa mor aml ydych chi’n defnyddio bob un o’r canlynol i deithio o le i le? Beic (safonol) ...............................59
Tabl 7.5 – Cyfran yr ymatebwyr sy’n mynd ar wyliau - Yn y 12 mis diwethaf, faint o’r mathau canlynol o wyliau, os o gwbl, ydych chi wedi bod arnynt? .......................................64

**Rhestr ffigurau**

Ffigur 2.1 – Ymatebion oedran a rhywedd - ‘Pa grŵp oedran ydych chi ynddo?’................. 11
Ffigur 2.2 – Ymatebion oedran a math o ardal - ‘Pa grŵp oedran ydych chi ynddo?’ ..........12
Ffigur 2.3 – Ymatebion galwedigaeth a math o ardal – ‘Nodwch pa grŵp galwedigaethau y mae’r prif enillydd incwm (y sawl sydd â’r incwm mwyaf) ar eich aelwyd yn perthyn iddo’....................13
Ffigur 2.4 – Ymatebion incwm ac oedran – ‘Nodwch incwm bras eich aelwyd y flwyddyn (cyn treth ac unrhyw ddidyniadau eraill)?’ ....................14
Ffigur 2.5 – Ymatebion incwm a math o ardal - ‘Nodwch incwm bras eich aelwyd y flwyddyn (cyn treth ac unrhyw ddidyniadau eraill)?’ ....................15
Ffigur 2.6 – Ymatebion galwedigaeth ac incwm - ‘Nodwch incwm bras eich aelwyd y flwyddyn (cyn treth ac unrhyw ddidyniadau eraill?’ ....................16
Ffigur 2.7 – Ymatebion Ymdopi’n ariannol ac Oedran – ‘Pa un o’r canlynol sy’n dod agosaf i sut rydych yn teimlo am incwm eich aelwyd y dyddiau yma?’ ....................17
Ffigur 2.8 – Ymatebion deiliadaeth a math o ardal – ‘A yw eich aelwyd yn berchen ar eich llety neu’n ei rentu?’ ....................18
Ffigur 2.9 – Ymatebion deiliadaeth ac incwm – ‘A yw eich aelwyd yn berchen ar eich llety neu’n ei rentu?’....................19
Ffigur 3.1 – Achosion newid hinsawdd yn ôl gwrywod a benywod – ‘Beth ydych chi’n ei gredu sy’n achosi newid hinsawdd?’ ....................21
Ffigur 3.2 – Cyfrifoldeb personol am atal newid hinsawdd rhag gwaethygu – ‘I ba raddau ydych chi’n teimlo cyfrifoldeb personol i geisio atal newid hinsawdd rhag gwaethygu?’ ....................26
Ffigur 3.3 – Cred y gall gweithredoedd personol helpu i atal newid hinsawdd rhag gwaethygu – ‘I ba raddau ydych chi’n teimlo y gall eich gweithredoedd personol eich hun helpu i atal newid hinsawdd rhag gwaethygu?’ ....................27
Ffigur 3.4 – Cymhariaeth – ‘I ba raddau ydych chi’n teimlo cyfrifoldeb personol i geisio atal newid hinsawdd rhag gwaethygu?’ ac ‘I ba raddau ydych chi’n teimlo y gall eich gweithredoedd personol eich hun helpu i atal newid hinsawdd rhag gwaethygu?’..29
Ffigur 3.5 – Gwybodaeth am Sero Net, targedau Sero Net a dewisiadau gwyrdd Llywodraeth Cymru yn ôl rhywedd – ‘Faint ydych chi’n ei wybod am y canlynol?’ ..30
Ffigur 3.6 – Gwybodaeth am Sero Net, targedau Sero Net a dewisiadau gwyrdd Llywodraeth Cymru yn ôl statws cyflogaeth (ymatebwyr a atebodd “Rwy’n gwybod cryn dipyn / llawer) – ‘Faint ydych chi’n ei wybod am y canlynol?’ ....................31

Ffigur 4.1 – Amlder gwirio defnydd ynni – Ar hyn o bryd, pa mor aml ydych chi'n gwirio faint o ynni yr ydych chi'n ei ddefnyddio? ........ 35
Ffigur 4.2 – Lleihau defnydd ynni yn ôl math o ardal – A ydych chi wedi cymryd unrhyw un o'r camau canlynol i leihau eich defnydd ynni? ........ 37
Ffigur 4.3 - Lleihau defnydd ynni yn ôl aelwyd – A ydych chi wedi cymryd unrhyw un o'r camau canlynol i leihau eich defnydd ynni? ........ 39
Ffigur 4.4 – Mesurau effeithlonrwydd ynni yn ôl incwm aelwyd – Ceir rhestr isod o fesurau effeithlonrwydd ynni eraill. Pa rai, os o gwbl, sydd gennych chi yn eich cartref?' ........ 41
Ffigur 4.5 - Mesurau effeithlonrwydd ynni yn ôl statws cyflogaeth – Ceir rhestr isod o fesurau effeithlonrwydd ynni eraill. Pa rai, os o gwbl, sydd gennych chi yn eich cartref?' ........ 42
Ffigur 5.1 – Taflu bwyd yn ôl oedran – 'Pa mor aml ydych mewn wythnos arferol y mae eich aelwyd angen taflu bwyd sydd wedi difetha neu wedi mynd y tu hwnt i'w ddyddiad dod i ben?' ........ 46
Ffigur 5.2 – Arferion siopa am fwyd neu goginio prydau yn ôl math o ardal – 'A ydych chi'n gwneud unrhyw un o'r canlynol wrth siopa am fwyd neu goginio prydau?' ........ 48
Ffigur 6.1 – Arferion cynaliadwy yn ôl rhywedd – 'Hoffem ofyn i chi nawr am bethau y gallech eu gwneud yn eich bywyd dyddiol. Atebwch drosoch eich hun, nid eich aelwyd. A ydych chi'n gwneud unrhyw un o'r canlynol?' ........ 51
Ffigur 6.2 – Arferion cynaliadwy yn ôl oedran - 'Hoffem ofyn i chi nawr am bethau y gallech eu gwneud yn eich bywyd dyddiol. Atebwch drosoch eich hun, nid eich aelwyd. A ydych chi'n gwneud unrhyw un o'r canlynol?' ........ 52
Ffigur 6.3 – Arferion cynaliadwy yn ôl incwm aelwyd - 'Hoffem ofyn i chi nawr am bethau y gallech eu gwneud yn eich bywyd dyddiol. Atebwch drosoch eich hun, nid eich aelwyd. A ydych chi'n gwneud unrhyw un o'r canlynol?' ........ 53
Ffigur 7.1 – Amlder teithio mewn car, ar drên ac ar fws – Pa mor aml ydych chi'n defnyddio bob un o'r canlynol i deithio o le i le? ........ 57
Ffigur 7.2 – Amlder teithio ar feic (safonol) a cherdded / defnyddio cadair olwyn – Pa mor aml ydych chi'n defnyddio bob un o'r canlynol i deithio o le i le? ........ 58
Ffigur 7.3 – Amlder teithio ar awyren - Pa mor aml ydych chi'n defnyddio bob un o'r canlynol i deithio o le i le? (Awyren) ........ 60
Ffigur 7.4 – Amlder teithio ar awyren yn ôl incwm - Pa mor aml ydych chi'n defnyddio bob un o'r canlynol i deithio o le i le? (Awyren) ........ 61
Ffigur 7.5 – Arferion teithio cynaliadwy - A ydych chi'n gwneud unrhyw un o'r canlynol wrth deithio o le i le? ........ 62

Ffigur 7.6 – Arferion teithio cynaliadwy yn ôl math o ardal – A ydych chi’n gwneud unrhyw un o’r canlynol wrth deithio o le i le? ........................................................................63
Ffigur 7.7 – Cyfran yr ymatebwyr a aeth ar o leiaf un gwyliau yn y 12 mis diwethaf yn ôl rhywedd - Yn y 12 mis diwethaf, faint o’r mathau canlynol o wyliau, os o gwbl, ydych chi wedi bod arnynt? ...............................................................................................65
Ffigur 7.8 – Cyfran yr ymatebwyr a aeth ar o leiaf un gwyliau yn y 12 mis diwethaf yn ôl incwm - Yn y 12 mis diwethaf, faint o’r mathau canlynol o wyliau, os o gwbl, ydych chi wedi bod arnynt? ...............................................................................................66

# Geirfa

## Dewisiadau gwyrdd

Dewisiadau gwyrdd yw'r dewisiadau y gallwn eu gwneud yn ein bywydau bob dydd i fynd i'r afael â newid hinsawdd o'n hynni cartref, i ymddygiadau trafnidiaeth, bwyd a defnydd.

## Sero Net

Lle mae'r nwyon tŷ gwydr a gymerir o'r atmosffer yn cydbwyso â'r nwyon tŷ gwydr sy'n cael eu hallyrru.

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r allbynnau o'r ail o chwe cham yr arolwg meintiol Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd o aelwydydd yng Nghymru. Comisiynwyd yr arolwg gan Lywodraeth Cymru i ddeall agweddau ac ymddygiadau yn gysylltiedig â lleihau allyriadau carbon. Bydd y gwaith ymchwil hwn yn cyfrannu at ddull Llywodraeth Cymru o newid ymddygiad a chymdeithas ac yn hysbysu datblygiad a phenderfyniadau polisi yn y dyfodol o ran datgarboneiddio.

1.2 Bydd nodau'r ymchwil yn cael eu bodloni trwy ymchwil gynradd gydag aelodau'r cyhoedd yng Nghymru dros chwe cham chwe-misol, â tharged o 1,000 o ymatebion fesul cam.

1.3 Mae Adroddiad Allbynnau Cam 1 yr Arolwg yn cynnig rhagor o fanylion ar y cefndir i'r arolwg.

**Dyluniad yr holiadur**

1.4 Datblygwyd yr holiadur gan WSP, Accent a Llywodraeth Cymru.

1.5 Dyluniwyd yr holiadur i ganiatáu agweddau ac ymddygiadau i gael eu holrhain yng nghamau'r dyfodol ac fe'i strwythurwyd i gwmpasu'r chwe maes canlynol:

- Ynglŷn â chi a'ch aelwyd
- Eich canfyddiadau a'ch agweddau
- Ynglŷn â'ch ynni cartref
- Bwyd
- Bywyd dyddiol
- Teithio.

1.6 Mireiniwyd yr holiadur yn dilyn profion gwybyddol ac arolwg peilot.

1.7 Mae'r holiadur terfynol a ddefnyddiwyd ar gyfer Cam 2 wedi'i gynnwys yn yr Atodiad.

**Gwaith maes**

1.8 Gwnaed y gwaith maes ar gyfer Cam 2 rhwng dydd Mawrth 6 Chwefror a dydd Mercher 17 Mawrth 2024.

1.9 Cwblhawyd 943 o arolygon, 764 ar-lein a chwblhawyd 179 wyneb yn wyneb ar garreg y drws. Cwblhawyd 18 o arolygon yn Gymraeg. 6.0% oedd y gyfradd ymateb gyffredinol.

**Nodweddion y sampl**

1.10 Cymharwyd nodweddion demograffig y sampl â setiau data cenedlaethol ar gyfer Cymru, e.e. Cyfrifiad 2021, i sicrhau bod y sampl yn gynrychiadol o'r boblogaeth ehangach. Roedd cwestiynau demograffig yn cwmpasu oedran, gwrywod a benywod, ethnigrwydd, lleoliad, statws gwaith, galwedigaeth, incwm aelwyd, math o eiddo, a deiliadaeth.

1.11 Mae cymariaethau yn dynodi bod y sampl yn gyffredinol gynrychiadol o boblogaeth Cymru. Mae allbynnau'r arolwg yn gymaradwy â'r allbynnau o setiau data cenedlaethol ar gyfer oedran, rhyw, ethnigrwydd, statws gwaith, incwm aelwyd, a galwedigaeth. Gwelwyd mân amrywiadau rhwng data'r arolwg a setiau data cenedlaethol ar gyfer lleoliad, galwedigaeth, deiliadaeth, a math o eiddo.

**Adroddiad methodoleg**

1.12 Mae Adroddiad Methodoleg Camau 1 a 2 yn cynnig rhagor o fanylion am ddyluniad yr arolwg, gan gynnwys cymhariaeth o nodweddion demograffig sampl yr arolwg â data Cyfrifiad 2021 a setiau data cenedlaethol.

**Strwythur yr adroddiad**

1.13 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r allbynnau allweddol o'r ail o chwe cham arfaethedig yr arolwg. Fel y cyfryw, mae'r allbynnau yn dangos y sefyllfa bresennol, gan nodi unrhyw wahaniaethau nodedig mewn ymatebion wrth ddadgyfuno'r sampl. Nid yw'r adroddiad yn rhoi manylion yr ymatebion i bob un cwestiwn, ond mae'n cyflwyno crynodeb lefel uchel o allbynnau allweddol.

1.14 Mae'r holl allbynnau yn dangos ymatebion heb eu pwysoli ac felly ni ellir eu cymryd yn ystadegol i gynrychioli poblogaeth Cymru yn ei chyfanrwydd, ond mae'r ymatebwyr yn gyfunol yn gyffredinol gynrychiadol o'r boblogaeth honno yn ôl newidynnau demograffig allweddol. Mae'r allbynnau yn ganlyniad o ddadansoddiad deunewidyn a gynhaliwyd ar yr ymatebion i'r arolwg.

1.15 Trefnwyd i'r camau wneud gwaith maes yn yr haf a'r gaeaf bob yn ail, i nodi unrhyw wahaniaethau tymhorol posibl yn yr ymatebion. Mae Adroddiad Cymharu Cam 2 yn

cyflwyno crynodeb lefel uchel o allbynnau allweddol o Gam 1 a Cham 2, gan amlygu agweddau tebyg a gwahanol rhwng yr ymatebion lle maent yn codi

1.16 Mae’r adroddiad wedi’i strwythuro fel a ganlyn.

- Adran 2 – Nodweddion y Sampl
- Adran 3 – Canfyddiadau ac Agweddau
- Adran 4 – Ynglŷn â’ch Ynni Cartref
- Adran 5 – Bwyd
- Adran 6 – Bywyd Dyddiol
- Adran 7 – Teithio
- Adran 8 – Casgliad

## 2. Patrymau demograffig

2.1 Mae Adroddiad Methodoleg Camau 1 a 2 yn cynnwys y dadansoddiad demograffig o'r ymatebwyr i'r arolwg ac yn cynnig cymhariaeth â setiau data cenedlaethol ar gyfer Cymru ar gyfer ymatebion Cam 1 a Cham 2.


2.2 Mae cymariaethau yn dynodi bod y samplau yn gyffredinol gynrychiadol o boblogaeth Cymru o ran oedran, rhywedd, ethnigrwydd, statws gwaith, ac incwm aelwyd. Gwelwyd mân wahaniaethau o ran lleoliad, galwedigaeth, deiliadaeth, a math o eiddo.

2.3 Mae'r adran hon yn dadansoddi data demograffig Cam 2 gan nodi ymhellach cysylltiadau rhwng y gwahanol nodweddion demograffig.

### Oedran a rhywedd

2.4 Roedd yr ymateb i oedran a rhywedd yn cyd-fynd yn gyffredinol â data cyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru. Mae cyfuno'r categorïau hyn yn dangos bod ymatebwyr benywaidd yn dueddol o fod yn iau nag ymatebwyr gwrywaidd (Ffigur 2.1). Roedd 42% o ymatebwyr benywaidd yn 44 oed neu iau, o'i gymharu â 31% o ymatebwyr gwrywaidd.

**Ffigur 2.1: Ymatebion oedran a rhywedd - 'Pa grŵp oedran ydych chi ynddo?'**





Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 2 2024. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. 'Ddim yn gwybod' a 'Byddai'n well gen i beidio â dweud' heb eu cynnwys. Sylfaen = 932 (Benywod = 511, Gwrywod = 421)

### Oedran a math o ardal

2.5 Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddynodi'r math o ardal y maent yn byw ynddo. Roedd ymatebwyr sy'n byw yng nghanol trefi mawr neu ddinasoedd yn dueddol o fod yn iau na'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd eraill; roedd 66% o'r ymatebwyr sy'n byw yng nghanol dinas neu dref fawr rhwng 18 a 44 oed, o'i gymharu â 34% o ymatebwyr 45 oed a hŷn (Ffigur 2.2). Roedd ymatebwyr sy'n byw yng nghefn gwlad neu mewn maestrefi yn dueddol o fod yn hŷn.

**Ffigur 2.2: Ymatebion oedran a math o ardal - 'Pa grŵp oedran ydych chi ynddo?'**





Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 2 2024. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. 'Ddim yn gwybod' a 'Byddai'n well gen i beidio â dweud' heb eu cynnwys. Sylfaen = 923 (Maestrefi = 290, Canol = 74, Pentref Mawr = 330, Cefn Gwlad = 229)

### Galwedigaeth a math o ardal

**2.6** Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa grŵp galwedigaethol yr oedd y prif enillydd incwm ar yr aelwyd yn perthyn iddo. Roedd gan gyfran uwch o ymatebwyr sy'n byw yng nghanol neu ym maestrefi dinas neu dref fawr alwedigaeth broffesiynol na'r rhai sy'n byw mewn mathau eraill o ardaloedd, 38% a 34% yn eu trefn (Ffigur 2.3). Cefn gwlad oedd y math o ardal â'r gyfran uchaf o ymatebwyr â galwedigaeth crefft fedrus (16%). Roedd cyfran is o bensiynwyr y wladwriaeth yn byw yng nghanol dinas neu dref fawr (6%) o'i gymharu â phob math arall o ardal.

**Ffigur 2.3: Ymatebion galwedigaeth a math o ardal – ‘Nodwch pa grŵp galwedigaethau y mae’r prif enillydd incwm (y sawl sydd â’r incwm mwyaf) ar eich aelwyd yn perthyn iddo’**





Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 2 2024. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. ‘Ddim yn gwybod’ ‘Arall / amherthnasol’ a ‘Byddai’n well gen i beidio â dweud’ heb eu cynnwys. Sylfaen = 873 (Maestrefi = 271, Canol = 72, Pentref Mawr = 311, Cefn Gwlad = 219)

**Incwm ac oedran**

2.7 Gofynnwyd i'r ymatebwyr beth yw incwm blynyddol eu haelwyd cyn treth ac unrhyw ddidyniadau eraill. Ni roddodd dros chwarter yr ymatebwyr ystod ar gyfer incwm eu haelwyd, dewisodd 22% "Byddai'n well gen i beidio â dweud" a dewisodd 4% "Ddim yn gwybod".

2.8 Roedd ymatebwyr hŷn yn llai tebygol o ddatgan incwm eu haelwyd. Roedd yn well gan 31% o ymatebwyr 65 oed a hŷn beidio â datgan incwm eu haelwyd (Ffigur 2.4). Roedd ymatebwyr rhwng 18 a 34 oed yn fwy tebygol o ddweud nad oeddent yn gwybod beth oedd incwm yr aelwyd (8%) o'u cymharu ag ymatebwyr mewn grwpiau oedran eraill.

**Ffigur 2.4: Ymatebion incwm ac oedran – 'Nodwch incwm bras eich aelwyd y flwyddyn (cyn treth ac unrhyw ddidyniadau eraill)?'**





Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 2 2024. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. 'Byddai'n well gen i beidio â dweud' heb ei gynnwys yn yr ymateb oedran. Sylfaen = 938 (18 i 34 = 182, 35 i 44 = 168, 45 i 54 = 149, 55 i 64 = 194, 65+ = 245)

**Incwm a math o ardal**

2.9 Mae archwilio incwm aelwydydd fesul math o ardal (Ffigur 2.5) yn dangos bod ymatebwyr sy'n byw yng nghefn gwlad neu mewn pentref bach yn fwy tebygol o beidio â datgan incwm eu haelwyd (28%) o'u cymharu ag ymatebwyr sy'n byw mewn mathau eraill o ardal. Maestrefi dinas neu dref fawr (25%) a chanol dinas neu

dref fawr (28%) oedd y mathau o ardal â'r gyfran uchaf o ymatebwyr ag incwm aelwyd o £50,000 ac uwch.

**Ffigur 2.5: Ymatebion incwm a math o ardal - 'Nodwch incwm bras eich aelwyd y flwyddyn (cyn treth ac unrhyw ddidyniadau eraill)?'**





Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 2 2024. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. 'Ddim yn gwybod' a 'Byddai'n well gen i beidio â dweud' heb eu cynnwys yn yr ymateb math o ardal. Sylfaen = 927 (Maestrefi = 290, Canol = 75, Pentref Mawr = 331, Cefn Gwlad = 231)

### Galwedigaeth ac incwm

2.10 Roedd ymatebwyr sy'n gweithredu peiriannau a'r rhai â chrefftau medrus yn fwy tebygol o beidio â datgan incwm eu haelwyd (45% a 35% yn eu trefn) nag ymatebwyr ag unrhyw alwedigaeth arall (Ffigur 2.6).

2.11 Ac eithrio ymatebwyr di-waith a phensiynwyr y wladwriaeth, 'gofalu, hamdden a gwasanaethau personol eraill' oedd â'r gyfran uchaf o ymatebwyr ag incwm aelwyd hyd at £19,999 (26%). 'Rheolwr, cyfarwyddwr, neu swyddog uwch' oedd â'r gyfran uchaf o ymatebwyr ag incwm aelwyd uwch na £50,000 (46%).

**Ffigur 2.6: Ymatebion galwedigaeth ac incwm - 'Nodwch incwm bras eich aelwyd y flwyddyn (cyn treth ac unrhyw ddidyniadau eraill?'**





Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 2 2024. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. 'Ddim yn gwybod' 'Arall / amherthnasol' a 'Byddai'n well gen i beidio â dweud' heb eu cynnwys yn yr ymateb galwedigaeth. Sylfaen = 868 (*Gweinyddol = 85, Cyswllt = 55, Gofalu = 54, Rheolwr = 95, Arall = 28, Proses = 11, Proffesiynol = 225, Manwerthu = 48, Medrus = 93, Pensiynwr = 121, Di-waith =* 53)

### Ymdopi’n ariannol ac oedran

2.12 Gofynnwyd i’r ymatebwyr sut roeddent yn teimlo am incwm blynyddol eu haelwyd. O gyfuno’r ymatebion â grŵp oedran, dangoswyd bod 45% o’r ymatebwyr 65+ oed eu bod yn byw’n gyfforddus ar eu hincwm presennol (Ffigur 2.7). Roedd hyn 14 pwynt canran yn fwy na’r ymateb gan unrhyw gategori oedran arall. Gostyngodd cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn ei chael yn anodd ar eu hincwm presennol gyda chategori oedran cynyddol, dywedodd 24% o’r rhai 18-34 mlwydd oed eu bod yn ei chael yn anodd, o’i gymharu â 14% o ymatebwyr 65+.

**Ffigur 2.7: Ymatebion Ymdopi’n ariannol ac Oedran – ‘Pa un o’r canlynol sy’n dod agosaf i sut rydych yn teimlo am incwm eich aelwyd y dyddiau yma?’**





Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 2 2024. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiynau i aelwydydd â 2 neu fwy o breswylwyr. ‘Byddai’n well gen i beidio â dweud’ heb ei gynnwys yn yr ymateb Oedran. Sylfaen = 609 (18 i 34 = 124, 35 i 44 = 112, 45 i 54 = 103, 55 i 64 = 128, 65+ = 142)

2.13 Dylid nodi mai dim ond i aelwydydd â 2 neu fwy o breswylwyr y gofynnwyd y cwestiwn hwn. Bydd hyn yn cael ei ofyn i’r holl ymatebwyr yng nghamau’r dyfodol.

**Deiliadaeth a math o ardal**

2.14 Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd yr aelwyd yn berchen ar eu llety neu'n ei rentu. Mae'r cyfuniad o ddeiliadaeth a math o ardal yn dangos bod tua hanner yr ymatebwyr yng nghefn gwlad neu mewn pentref bach (50%) neu ym maestrefi dinas neu dref fawr (51%) yn berchen ar eu llety'n llwyr neu'n byw gyda'r sawl sydd yn berchen arno (Ffigur 2.8).

**Ffigur 2.8: Ymatebion deiliadaeth a math o ardal – 'A yw eich aelwyd yn berchen ar eich llety neu'n ei rentu?'**





Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 2 2024. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. 'Ddim yn gwybod' a 'Byddai'n well gen i beidio â dweud' heb eu cynnwys. Sylfaen = 903 (Maestrefi = 281, Canol = 72, Pentref Mawr = 324, Cefn Gwlad = 226)

**Deiliadaeth ac incwm**

2.15 Mae'r cyfuniad o ddeiliadaeth ac incwm aelwyd yn dangos bod ymatebwyr sy'n rhentu yn fwy tebygol o fod ag incwm aelwyd o hyd at £19,999, 46% (Ffigur 2.9) o gymharu â grwpiau incwm eraill. Roedd 91% o ymatebwyr ag incwm aelwyd o £50,000 ac uwch yn berchen ar y cartref yn llwyr neu'n berchen ar y cartref gyda

morgais. Roedd 59% o ymatebwyr na rannodd incwm eu haelwyd yn berchen ar y cartref yn llwyr neu'n byw gyda'r sawl sydd berchen arno.

**Ffigur 2.9: Ymatebion deiliadaeth ac incwm – 'A yw eich aelwyd yn berchen ar eich llety neu'n ei rentu?'**




Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 2 2024. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. 'Ddim yn gwybod' a 'Byddai'n well gen i beidio â dweud' heb eu cynnwys yn yr ymateb Deiliadaeth. Sylfaen = 913 (Hyd at £19,999 = 160, £20,000 i £49,999 = 338, £50,000+ = 189, Ddim yn gwybod = 38, Byddai'n well gen i beidio â dweud = 188)

### Patrymau demograffig: crynodeb

I grynhoi'r canfyddiadau allweddol ar nodweddion yr ymatebwyr i arolwg Cam 2:

- Roedd ymatebwyr benywaidd i'r arolwg yn iau nag ymatebwyr gwrywaidd i'r arolwg. Roedd ymatebwyr iau yn dueddol o fyw yng nghanol dinas neu dref fawr tra bod ymatebwyr hŷn yn dueddol o fyw ym maestrefi dinas neu dref fawr, neu yng nghefn gwlad neu mewn pentref bach.
- Roedd ymatebwyr â galwedigaeth crefft fedrus yn fwy tebygol o fod yn byw yng nghefn gwlad neu mewn pentref bach.
- Ni wnaeth cyfran fawr o'r ymatebwyr ddatgan incwm eu haelwyd. Roedd y grŵp hwn yn dueddol o fod yn hŷn, o fyw yng nghefn gwlad neu mewn

pentref bach, yn meddu ar grefft fedrus yn aml, ac yn dueddol o fod yn berchen ar eu cartref yn llwyr.

## 3. Canfyddiadau ac agweddau


3.1 Bydd adran hon yr adroddiad yn trafod safbwyntiau'r ymatebwyr ar newid hinsawdd.

### Achosion newid hinsawdd

3.2 Holwyd yr ymatebwyr am newid hinsawdd. Dywedodd 46% o'r ymatebwyr eu bod yn credu bod newid hinsawdd yn cael ei achosi gan weithgarwch dynol yn bennaf, a dywedodd 14% eu bod yn credu ei fod yn cael ei achosi'n gyfan gwbl gan weithgarwch dynol. Fodd bynnag, dywedodd 2% nad ydynt yn credu bod newid hinsawdd yn digwydd, a dywedodd 4% eu bod yn credu ei fod yn cael ei achosi gan brosesau naturiol yn gyfan gwbl.

3.3 Dywedodd cyfran ryw fymryn yn uwch o ymatebwyr gwrywaidd nag ymatebwyr benywaidd nad yw newid hinsawdd yn digwydd (3% o'i gymharu ag 1%) neu mai prosesau naturiol yw'r prif achos (23% o'i gymharu â 17%) (Ffigur 3.1).

**Ffigur 3.1: Achosion newid hinsawdd yn ôl gwrywod a benywod – 'Beth ydych chi'n ei gredu sy'n achosi newid hinsawdd?'**




Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 2 2024. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. 'Ddim yn gwybod' a 'Byddai'n well gen i beidio â dweud' heb eu cynnwys yn yr ymateb Rhywedd. Sylfaen = 930 (Benywod = 510, Gwrywod = 420)

### Pryder am newid hinsawdd

3.4 Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa mor bryderus yr oeddent yn bersonol am newid hinsawdd. Dywedodd 26% o'r ymatebwyr eu bod yn bryderus iawn am newid hinsawdd, dywedodd 38% eu bod yn weddol bryderus, dywedodd 22% nad oeddent yn bryderus iawn, a dywedodd 11% nad oeddent yn bryderus o gwbl.

3.5 Cafwyd allbwn wedi'i symleiddio o gyfuno'r categorïau ymatebion yn pryderus iawn / gweddol bryderus a ddim yn bryderus iawn / ddim yn bryderus o gwbl. Dadgyfunwyd yr ymatebion wedyn yn ôl rhywedd, oedran ac incwm. Dywedodd cyfran uwch o ymatebwyr benywaidd (74%) eu bod yn bryderus iawn / gweddol bryderus am newid nag ymatebwyr gwrywaidd (56%) (Tabl 3.1).

**Tabl 3.1: Pryder am newid hinsawdd yn ôl rhywedd - 'Pa mor bryderus ydych chi'n bersonol am newid hinsawdd?'**

| Pryder | Pawb | Benywod | Gwrywod |
|---|---|---|---|
| Ddim yn bryderus iawn / Ddim yn bryderus o gwbl | 34% | 26% | 44% |
| Pryderus iawn / Gweddol bryderus | 66% | 74% | 56% |

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 2 2024. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. 'Ddim yn gwybod' a 'Byddai'n well gen i beidio â dweud' heb eu cynnwys. Sylfaen = 899 (Benywod = 483, Gwrywod = 416)

3.6 Ymatebwyr 65 oed a hŷn oedd leiaf pryderus am newid hinsawdd (Tabl 3.2). Dywedodd 56% o ymatebwyr 65 oed a hŷn eu bod yn bryderus iawn / gweddol bryderus am newid hinsawdd, o'i gymharu â 69 i 71% mewn categorïau oedran eraill.

**Tabl 3.2: Pryder am newid hinsawdd yn ôl oedran – 'Pa mor bryderus ydych chi'n bersonol am newid hinsawdd?'**

| Pryder | Pawb | 18 i 34 | 35 i 44 | 45 i 54 | 55 i 64 | 65+ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ddim yn bryderus iawn / Ddim yn bryderus o gwbl | 34% | 31% | 30% | 30% | 29% | 44% |
| Pryderus iawn / Gweddol bryderus | 66% | 69% | 70% | 70% | 71% | 56% |

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 2 2024. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. 'Ddim yn gwybod' a 'Byddai'n well gen i beidio â dweud' heb eu cynnwys. Sylfaen = 901 (18 i 34 = 175, 35 i 44 = 158, 45 i 54 = 145, 55 i 64 = 184, 65+ = 239)

3.7 Ymatebwyr ag incwm aelwyd o £50,000 ac uwch oedd fwyaf pryderus am newid hinsawdd; dywedodd 70% eu bod yn bryderus iawn / gweddol bryderus (Tabl 3.3). Roedd ymatebwyr yr oedd yn well ganddynt beidio â rhannu incwm eu haelwyd yn llai pryderus am newid hinsawdd; dywedodd 57% eu bod yn bryderus iawn / gweddol bryderus.

**Tabl 3.3: Pryder am newid hinsawdd yn ôl incwm - 'Pa mor bryderus ydych chi'n bersonol am newid hinsawdd?'**

| Pryder | Pawb | Hyd at £19,999 | £20,000 i £49,999 | £50,000+ | Byddai'n well gen i beidio â dweud |
|---|---|---|---|---|---|
| Ddim yn bryderus iawn / Ddim yn bryderus o gwbl | 34% | 36% | 31% | 30% | 43% |
| Pryderus iawn / Gweddol bryderus | 66% | 64% | 69% | 70% | 57% |

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 2 2024. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. 'Ddim yn gwybod' a 'Byddai'n well gen i beidio â dweud' heb eu cynnwys yn yr ymateb Pryder, 'Ddim yn gwybod' heb ei gynnwys yn yr ymateb Incwm. Sylfaen = 871 (Hyd at £19,999 = 162, £20,000 i £49,999 = 323, £50,000+ = 188, Byddai'n well gen i beidio â dweud = 198)

**Cyfrifoldeb am fynd i'r afael â newid hinsawdd**

3.8 Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa mor gyfrifol yw grwpiau penodol am fynd i'r afael â newid hinsawdd. Y cyhoedd yn gyffredinol, y gymuned leol, y cyngor lleol, busnesau, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a gwledydd y tu allan i'r DU oedd y grwpiau.

3.9 Mae cyfuno'r categorïau ymatebion yn gyfrifol iawn / rhywfaint o gyfrifoldeb a ddim yn gyfrifol iawn / ddim yn gyfrifol o gwbl yn rhoi allbwn wedi'i symleiddio. Gellir cymharu cyfran yr ymatebion cyfrifol iawn / rhywfaint o gyfrifoldeb rhwng grwpiau wedyn (Tabl 3.4). Dywedodd cyfran is o ymatebwyr bod eu cymuned leol (63%) a'r cyhoedd yn gyffredinol (72%) yn gyfrifol iawn neu â rhywfaint o gyfrifoldeb o'u cymharu â busnesau (87%), a Llywodraethau Cymru (84%) a'r DU (87%). Dywedodd 91% o ymatebwyr bod gwledydd y tu allan i'r DU yn gyfrifol iawn neu â rhywfaint o gyfrifoldeb am fynd i'r afael â newid hinsawdd.

3.10 Dywedodd ymatebwyr benywaidd bod gan bob grŵp fwy o gyfrifoldeb nag ymatebwyr gwrywaidd, ac roedd y gwahaniaethau mwyaf o ran cyfrifoldeb y

gymuned leol (gwahaniaeth o 20 pwynt canran), eu cyngor lleol (gwahaniaeth o 13 pwynt canran) a Llywodraeth Cymru (gwahaniaeth o 14 pwynt canran).

3.11 Roedd cyfran yr ymatebwyr 55 i 64 oed a 65 oed a hŷn a ddywedodd bod y cyhoedd yn gyffredinol (68% ar gyfer pob grŵp oedran) a'r gymuned leol (58% ar gyfer 55 i 64 oed, 54% ar gyfer 65+) yn gyfrifol iawn / â rhywfaint o gyfrifoldeb am fynd i'r afael â newid hinsawdd, yn is nag ar gyfer pob grŵp oedran arall.

**Tabl 3.4: Cyfran cyfrifol iawn / rhywfaint o gyfrifoldeb am fynd i'r afael â newid hinsawdd: pob ymatebwr, rhywedd, ac oedran – 'I ba raddau ydych chi'n credu y mae'r canlynol yn gyfrifol am fynd i'r afael â newid hinsawdd?'**

| Grŵp | Pawb | Benywod | Gwrywod | 18 i 34 | 35 i 44 | 45 i 54 | 55 i 64 | 65+ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y cyhoedd yn gyffredinol | 72% | 76% | 67% | 76% | 76% | 73% | 68% | 68% |
| Y gymuned leol | 63% | 72% | 52% | 66% | 68% | 71% | 58% | 54% |
| Eich cyngor | 78% | 84% | 71% | 83% | 83% | 84% | 73% | 73% |
| Busnesau | 87% | 91% | 81% | 89% | 90% | 88% | 85% | 83% |
| Llywodraeth Cymru | 84% | 91% | 77% | 88% | 89% | 87% | 82% | 79% |
| Llywodraeth y DU | 87% | 93% | 81% | 92% | 90% | 87% | 86% | 83% |
| Gwledydd y tu allan i'r DU | 91% | 94% | 89% | 94% | 93% | 93% | 89% | 90% |

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 2 2024. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. 'Ddim yn gwybod' a 'Byddai'n well gen i beidio â dweud' heb eu cynnwys ym mhob ymateb. Sylfaen = 888 - 911 (*ar gyfer pob ymatebwr, mae'r niferoedd yn amrywio gan fod 'Ddim yn gwybod' a Byddai'n well gen i beidio â dweud' heb eu cynnwys*)

3.12 Yn ôl math o ardal, dywedodd cyfran is o ymatebwyr sy'n byw yng nghefn gwlad neu mewn pentref bach bod y cyhoedd yn gyffredinol (69%), eu cymuned leol (60%) a'u cyngor (76%) yn gyfrifol iawn neu â rhywfaint o gyfrifoldeb am fynd i'r afael â newid hinsawdd, o'u cymharu ag ymatebwyr sy'n byw mewn mathau eraill o ardaloedd (Tabl 3.5).

**Tabl 3.5: Cyfran cyfrifol iawn / rhywfaint o gyfrifoldeb am fynd i'r afael â newid hinsawdd yn ôl math o ardal – 'I ba raddau ydych chi'n credu y mae'r canlynol yn gyfrifol am fynd i'r afael â newid hinsawdd?'**

| Grŵp | Pawb | Maestrefi dinas neu dref fawr | Canol dinas neu dref fawr | Pentref mawr neu dref fach | Cefn gwlad neu bentref bach |
|---|---|---|---|---|---|
| Y cyhoedd yn gyffredinol | 72% | 74% | 78% | 70% | 69% |
| Y gymuned leol | 63% | 63% | 72% | 62% | 60% |
| Eich cyngor | 78% | 79% | 84% | 78% | 76% |
| Busnesau | 87% | 86% | 86% | 87% | 87% |
| Llywodraeth Cymru | 84% | 86% | 86% | 84% | 80% |
| Llywodraeth y DU | 87% | 87% | 89% | 87% | 86% |
| Gwledydd y tu allan i'r DU | 91% | 90% | 94% | 92% | 90% |

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 2 2024. *Amlddewis.* Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. 'Ddim yn gwybod' a 'Byddai'n well gen i beidio â dweud' heb eu cynnwys ym mhob ymateb. Sylfaen = 881 - 897 (ar gyfer pob ymatebwr, mae'r niferoedd yn amrywio gan fod 'Ddim yn gwybod' a Byddai'n well gen i beidio â dweud' heb eu cynnwys)

3.13 Pan fydd yr ymatebion yn cael eu dadansoddi yn ôl incwm aelwyd, mynegodd gyfran is o'r ymatebwyr yr oedd yn well ganddynt beidio â rhannu eu hincwm bod y cyhoedd yn gyffredinol (53%), y gymuned leol (47%) a'u cyngor (65%) yn gyfrifol iawn neu â rhywfaint o gyfrifoldeb am fynd i'r afael â newid hinsawdd, o'u cymharu ag ymatebwyr o grwpiau incwm aelwyd eraill (Tabl 3.6). Ar draws y bandiau incwm eraill, mynegodd yr ymatebwyr safbwyntiau tebyg i'w gilydd yn gyffredinol.


**Tabl 3.6: Cyfran cyfrifol iawn / rhywfaint o gyfrifoldeb am fynd i'r afael â newid hinsawdd: pob ymatebwr yn ôl incwm – 'I ba raddau ydych chi'n credu y mae'r canlynol yn gyfrifol am fynd i'r afael â newid hinsawdd?'**

| Grŵp | Pawb | Hyd at £19,999 | £20,000 i £49,999 | £50,000+ | Byddai'n well gen i beidio â dweud |
|---|---|---|---|---|---|
| Y cyhoedd yn gyffredinol | 72% | 81% | 77% | 75% | 53% |
| Y gymuned leol | 63% | 72% | 65% | 68% | 47% |
| Eich cyngor | 78% | 85% | 80% | 83% | 65% |
| Busnesau | 87% | 87% | 86% | 86% | 88% |
| Llywodraeth Cymru | 84% | 86% | 85% | 89% | 77% |
| Llywodraeth y DU | 87% | 87% | 85% | 90% | 87% |
| Gwledydd y tu allan i'r DU | 91% | 89% | 91% | 95% | 92% |

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 2 2024. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. 'Ddim yn gwybod' a 'Byddai'n well gen i beidio â dweud' heb eu cynnwys ym mhob ymateb. Sylfaen = 852 - 875 (ar gyfer pob ymatebwr, mae'r niferoedd yn amrywio gan fod 'Ddim yn gwybod' a Byddai'n well gen i beidio â dweud' heb eu cynnwys)

3.14 Gofynnwyd i'r ymatebwyr roi sgôr rhwng 1 (ddim o gwbl) i 10 (llawer iawn) a oeddent yn teimlo cyfrifoldeb personol am atal newid hinsawdd. Dywedodd 28% eu bod yn teimlo cyfrifoldeb uchel (sgôr o 9 a 10), tra bod 16% yn dweud eu bod yn teimlo cyfrifoldeb isel (sgôr o 1 a 2; Ffigur 3.2).

**Ffigur 3.2: Cyfrifoldeb personol am atal newid hinsawdd rhag gwaethygu – 'I ba raddau ydych chi'n teimlo cyfrifoldeb personol i geisio atal newid hinsawdd rhag gwaethygu?'**




Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 2 2024. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. 'Byddai'n well gen i beidio â dweud' heb ei gynnwys ym mhob ymateb. Sylfaen = 937

3.15 Dywedodd cyfran uwch o ymatebwyr gwrywaidd eu bod yn teimlo ychydig o gyfrifoldeb personol am atal newid hinsawdd rhag gwaethygu nag ymatebwyr benywaidd. Dywedodd 22% o ymatebwyr gwrywaidd eu bod yn teimlo cyfrifoldeb isel (sgôr o 1 a 2) o'i gymharu ag 11% o ymatebwyr benywaidd (Tabl 3.7).


**Tabl 3.7: Cyfrifoldeb personol am atal newid hinsawdd rhag gwaethygu yn ôl rhywedd – 'I ba raddau ydych chi'n teimlo cyfrifoldeb personol i geisio atal newid hinsawdd rhag gwaethygu?'**

| Grŵp | Pawb | Benywod | Gwrywod |
|---|---|---|---|
| 1-2 Ddim o gwbl | 16% | 11% | 22% |
| 3-5 | 20% | 20% | 20% |
| 6-8 | 33% | 33% | 34% |
| 9-10 Llawer iawn | 28% | 34% | 21% |
| Ddim yn siŵr/Ddim yn gwybod | 2% | 3% | 2% |

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 2 2024. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. 'Ddim yn gwybod' a 'Byddai'n well gen i beidio â dweud' heb eu cynnwys yn yr ymateb Rhywedd. Sylfaen = 929 (Benywod = 509, Gwrywod = 420)

3.16 Gofynnwyd i'r ymatebwyr roi sgôr rhwng 1 (ddim o gwbl) i 10 (llawer iawn) a oeddent yn teimlo y gallai eu gweithredoedd personol atal newid hinsawdd. Dywedodd 15% eu bod yn teimlo'n gryf y gallai eu gweithredoedd atal newid hinsawdd (sgôr o 9 a 10), tra bod 23% yn dweud eu bod yn teimlo na allai eu gweithredoedd atal newid hinsawdd (sgôr o 1 a 2) (Ffigur 3.3).

**Ffigur 3.3: Cred y gall gweithredoedd personol helpu i atal newid hinsawdd rhag gwaethygu – 'I ba raddau ydych chi'n teimlo y gall eich gweithredoedd personol eich hun helpu i atal newid hinsawdd rhag gwaethygu?'**




Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 2 2024. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. 'Byddai'n well gen i beidio â dweud' heb ei gynnwys ym mhob ymateb. Sylfaen = 937

3.17 Dywedodd cyfran uwch o ymatebwyr gwrywaidd eu bod yn credu mai prin fyddai'r effaith y byddai eu gweithredoedd personol yn ei chael o ran atal newid hinsawdd rhag gwaethygu nag ymatebwyr benywaidd. Dywedodd 30% o ymatebwyr gwrywaidd eu bod yn credu y byddai eu gweithredoedd yn cael effaith isel (sgôr o 1 a 2), o'i gymharu ag 16% o ymatebwyr benywaidd (Tabl 3.8).


**Tabl 3.8: Cred y gall gweithredoedd personol helpu i atal newid hinsawdd rhag gwaethygu yn ôl rhywedd – 'I ba raddau ydych chi'n teimlo y gall eich gweithredoedd personol eich hun helpu i atal newid hinsawdd rhag gwaethygu?'**

| Grŵp | Pawb | Benywod | Gwrywod |
|---|---|---|---|
| 1-2 Ddim o gwbl | 23% | 16% | 30% |
| 3-5 | 28% | 25% | 31% |
| 6-8 | 31% | 36% | 25% |
| 9-10 Llawer iawn | 16% | 19% | 11% |
| Ddim yn siŵr/Ddim yn gwybod | 3% | 4% | 2% |

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 2 2024. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. 'Ddim yn gwybod' a 'Byddai'n well gen i beidio â dweud' heb eu cynnwys yn yr ymateb Rhywedd. Sylfaen = 929 (Benywod = 509, Gwrywod = 420)

3.18 Mae cymhariaeth o'r ymatebion i'r cwestiwn am gyfrifoldeb personol a chred am weithredoedd personol yn dangos gwahaniaeth rhwng i ba raddau yr oedd pobl yn teimlo cyfrifoldeb personol i geisio atal newid hinsawdd rhag gwaethygu, ac i ba raddau yr oedd pobl yn teimlo y gallai eu gweithredoedd personol eu hunain helpu i atal newid hinsawdd rhag gwaethygu. Dywedodd 28% eu bod yn teimlo cyfrifoldeb uchel (sgôr o 9 a 10) ond dim ond 15% ddywedodd eu bod yn teimlo'n gryf (sgôr o 9 a 10) y gallai eu gweithredoedd atal newid hinsawdd (Ffigur 3.4).

**Ffigur 3.4: Cymhariaeth – ‘I ba raddau ydych chi’n teimlo cyfrifoldeb personol i geisio atal newid hinsawdd rhag gwaethygu?’ ac ‘I ba raddau ydych chi’n teimlo y gall eich gweithredoedd personol eich hun helpu i atal newid hinsawdd rhag gwaethygu?’**




Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 2 2024. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. ‘Byddai’n well gen i beidio â dweud’ heb ei gynnwys ym mhob ymateb. Sylfaen = 937

**Gwybodaeth**

3.19 Gofynnwyd i’r ymatebwyr am eu gwybodaeth am Sero Net. Dywedodd 24% o ymatebwyr eu bod yn gwybod dim a dywedodd 38% o ymatebwyr eu bod yn gwybod ychydig am Sero Net (Tabl 3.9).

3.20 Gofynnwyd i’r ymatebwyr am eu gwybodaeth am dargedau Sero Net Llywodraeth Cymru. Dywedodd 36% eu bod yn gwybod dim a dywedodd 41% eu bod yn gwybod ychydig am dargedau Sero Net (Tabl 3.9).

3.21 Gofynnwyd i’r ymatebwyr am eu gwybodaeth am y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i helpu pobl i wneud dewisiadau gwyrdd. Dywedodd 32% eu bod yn gwybod dim a dywedodd 44% eu bod yn gwybod ychydig am y dewisiadau gwyrdd (Tabl 3.9).


**Tabl 3.9: Gwybodaeth am Sero Net, targedau Sero Net a dewisiadau gwyrdd Llywodraeth Cymru – 'Faint ydych chi'n ei wybod am y canlynol?'**

| Ymateb | Sero Net | Targedau Sero Net | Dewisiadau Gwyrdd LIC |
|---|---|---|---|
| Rwy'n gwybod dim | 24% | 36% | 32% |
| Rwy'n gwybod ychydig | 38% | 41% | 44% |
| Rwy'n gwybod cryn dipyn | 27% | 17% | 19% |
| Rwy'n gwybod llawer | 10% | 5% | 5% |
| Byddai'n well gen i beidio â dweud | 1% | 1% | 1% |

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 2 2024. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb, dim eithriadau. Sylfaen = 943

3.22 Mae cyfuno'r ymatebion 'gwybod cryn dipyn' / 'llawer' a 'gwybod dim' / 'ychydig' yn dangos bod cyfran uwch o ymatebwyr gwrywaidd yn dweud eu bod yn gwybod mwy am bob categori nag ymatebwyr benywaidd. Mae'r gwahaniaeth fwyaf ar gyfer gwybodaeth am Sero Net lle mae 52% o ymatebwyr gwrywaidd yn dweud eu bod yn gwybod cryn dipyn / llawer o'i gymharu â 26% o ymatebwyr benywaidd (Ffigur 3.5).

**Ffigur 3.5: Gwybodaeth am Sero Net, targedau Sero Net a dewisiadau gwyrdd Llywodraeth Cymru yn ôl rhywedd – 'Faint ydych chi'n ei wybod am y canlynol?'**





Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 2 2024. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. 'Ddim yn gwybod' a 'Byddai'n well gen i beidio â dweud' heb eu cynnwys yn yr ymateb Rhywedd. Sylfaen = 935 (Benywod = 500, Gwrywod = 435)

3.23 Dywedodd ymatebwyr di-waith eu bod yn gwybod llai am Sero Net nag unrhyw grwpiau eraill; dywedodd 17% o ymatebwyr di-waith eu bod yn gwybod cryn dipyn / llawer am Sero Net. Y rhai a oedd wedi ymddeol oedd yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn gwybod fwyaf am Sero Net; dywedodd 42% eu bod yn gwybod cryn dipyn / llawer (Ffigur 3.6), wedi'u dilyn yn agos gan Fyfyrwyr (41%) a phobl Gyflogedig (40%).

3.24 Dywedodd ymatebwyr a oedd yn fyfyrwyr, yn gyflogedig neu wedi ymddeol eu bod yn gwybod llai am dargedau Sero Net a Dewisiadau Gwyrdd LIC nag yr oeddent am Sero Net. Adroddodd ymatebwyr di-waith lefelau tebyg o wybodaeth am bob un o'r tri phwnc.

**Ffigur 3.6: Gwybodaeth am Sero Net, targedau Sero Net a dewisiadau gwyrdd Llywodraeth Cymru yn ôl statws cyflogaeth (ymatebwyr a atebodd "Rwy'n gwybod cryn dipyn / llawer) – 'Faint ydych chi'n ei wybod am y canlynol?'**




Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 2 2024. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. 'Byddai'n well gen i beidio â dweud' heb ei gynnwys yn yr ymateb Statws cyflogaeth. Sylfaen = 930 (Cyflogedig = 506, Di-waith = 77, Wedi ymddeol = 267, Myfyriwr = 39, Arall = 41)

### Canfyddiadau ac agweddau: crynodeb

3.25 Gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu safbwyntiau ar newid hinsawdd.

3.26 Roedd cytundeb cyffredinol ar draws yr holl ymatebwyr bod newid hinsawdd yn digwydd ac mai gweithgarwch dynol yw’r prif achos.

3.27 Roedd ymatebwyr gwrywaidd yn fwy tebygol o gredu nad yw newid hinsawdd yn digwydd neu ei fod yn cael ei achosi gan brosesau naturiol nag ymatebwyr benywaidd. Roedd ymatebwyr gwrywaidd hefyd yn llai pryderus am effeithiau newid hinsawdd nag ymatebwyr benywaidd.

3.28 Dywedodd cyfran uwch o ymatebwyr gwrywaidd hefyd bod ganddynt lefel uchel o wybodaeth am Sero Net, targedau Sero Net a Dewisiadau Gwyrdd Llywodraeth Cymru nag ymatebwyr benywaidd.

3.29 Yn ôl math o ardal, dywedodd y rhai mewn mathau mwy gwledig o ardaloedd bod gan y cyhoedd yn gyffredinol a grwpiau lleol lai o gyfrifoldeb am fynd i’r afael â newid hinsawdd nag ymatebwyr sy’n byw mewn mathau eraill o ardaloedd.

3.30 Roedd ymatebwyr iau yn fwy pryderus am newid hinsawdd nag ymatebwyr o grwpiau oedran eraill. Roeddent hefyd yn neilltuo lefelau uwch o gyfrifoldeb ar draws gwahanol grwpiau cymdeithasol na grwpiau oedran eraill, gan awgrymu safbwynt y dylai fod mwy o gyfrifoldeb cyfunol am fynd i’r afael â newid hinsawdd.

3.31 Dywedodd ymatebwyr a oedd yn ddi-waith eu bod yn gwybod y lleiaf am Sero Net, targedau Sero Net a Dewisiadau Gwyrdd Llywodraeth Cymru o’u cymharu â mathau eraill o gyflogaeth.

# 4. Ynglŷn â'ch ynni cartref

4.1 Gofynnwyd i'r ymatebwyr am ddefnydd ynni yn eu cartrefi a mesurau arbed ynni a ddefnyddir.

### Defnydd ynni

4.2 Roedd biliau ynni yn cael eu talu trwy ddebyd uniongyrchol ar 76% o aelwydydd, a mesuryddion talu ymlaen llaw yn cael eu defnyddio ar 12% o aelwydydd. Roedd mesuryddion talu ymlaen llaw yn cael eu defnyddio gan 35% o ymatebwyr di-waith o'i gymharu ag 11% o ymatebwyr cyflogedig (Tabl 4.1).

**Tabl 4.1: Dull talu bil ynni yn ôl cyflogaeth – 'Sut mae eich aelwyd yn talu'r bil ynni ar hyn o bryd?'**

| Dull Talu | Pawb | Cyflogedig | Di-waith | Wedi Ymddeol | Myfyriwr | Arall |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Debyd Uniongyrchol | 76% | 80% | 48% | 87% | 54% | 59% |
| Mesurydd talu ymlaen llaw/talu wrth ddefnyddio | 12% | 11% | 35% | 3% | 8% | 24% |
| Ar ôl derbyn bil | 8% | 7% | 5% | 7% | 15% | 15% |
| Arall (e.e., landlord yn talu'r bil) | 1% | 1% | 3% | 0% | 2% | 0% |
| Ddim yn gwybod | 1% | 0% | 5% | 0% | 18% | 0% |
| Byddai'n well gen i beidio â dweud | 2% | 1% | 4% | 3% | 3% | 2% |

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 2 2024. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. 'Byddai'n well gen i beidio â dweud' wedi'i gynnwys yn yr ymatebion 'Pawb'. Sylfaen = 943 (Cyflogedig = 506, Di-waith = 77, Wedi ymddeol = 267, Myfyriwr = 39, Arall = 41, Byddai'n well gen i beidio â dweud = 13)

4.3 Roedd deiliadaeth yr aelwyd hefyd yn gysylltiedig â gwahanol ddefnydd o fesuryddion talu ymlaen llaw. Mae grwpio'r categorïau perchnogaeth cartref a rhentu yn dangos bod 87% o'r ymatebwyr a oedd yn berchen ar eu cartref eu hunain yn talu trwy ddebyd uniongyrchol o'i gymharu â 49% o'r ymatebwyr a oedd yn rhentu (Tabl 4.2). Dim ond 4% o'r ymatebwyr a oedd yn berchen ar eu cartref eu hunain yn llwyr neu ar sail morgais oedd yn talu trwy fesurydd talu ymlaen llaw o'i gymharu â 35% o'r ymatebwyr a oedd yn rhentu.

**Tabl 4.2: Dull talu bil ynni yn ôl deiliadaeth – 'Sut mae eich aelwyd yn talu'r bil ynni ar hyn o bryd?'**

| Dull Talu | Pawb | Rwyf i/rydym ni yn berchen ar y cartref* | Mae'n cael ei rentu |
|---|---|---|---|
| Debyd Uniongyrchol | 76% | 87% | 49% |
| Mesurydd talu ymlaen llaw/talu wrth ddefnyddio | 12% | 4% | 35% |
| Ar ôl derbyn bil | 8% | 6% | 13% |
| Arall (e.e., landlord yn talu'r bil) | 1% | 0% | 1% |
| Ddim yn gwybod | 1% | 1% | 1% |
| Byddai'n well gen i beidio â dweud | 2% | 1% | 0% |

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 2 2024. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. 'Ddim yn gwybod', 'Byddai'n well gen i beidio â dweud' ac 'Arall' heb eu cynnwys yn yr ymateb Deiliadaeth. Sylfaen = 905 (Rwyf i/rydym ni yn berchen ar y cartref = 684, Mae'n cael ei rentu = 221)

*Mae 'Rwyf i/rydym ni yn berchen ar y cartref' yn cynnwys perchnogaeth lwyr ac ar sail morgais

4.4 Dywedodd 62% o'r ymatebwyr bod ganddynt fesurydd clyfar ar eu haelwyd. Fodd bynnag, dim ond 42% o'r ymatebwyr ddywedodd eu bod yn defnyddio eu mesurydd clyfar yn rheolaidd (Tabl 4.3). Mae grwpio'r categorïau perchnogaeth cartref a rhentu yn dangos bod gan 64% o'r ymatebwyr a oedd yn berchen ar eu cartref eu hunain fesurydd clyfar o'i gymharu â 57% o'r ymatebwyr a oedd yn rhentu.

**Tabl 4.3: Defnydd o fesurydd clyfar yn ôl deiliadaeth**


| Dull Talu | Pawb | Rwyf i/rydym ni yn berchen ar y cartref* | Mae'n cael ei rentu |
|---|---|---|---|
| Mae gen i fesurydd clyfar ac rwy'n defnyddio'r dangosydd yn y cartref | 42% | 43% | 39% |
| Mae gen i fesurydd clyfar ond nid wyf i'n defnyddio'r dangosydd yn y cartref | 13% | 15% | 11% |
| Mae gen i fesurydd clyfar ond nid yw'r dangosydd yn y cartref yn gweithio | 6% | 6% | 7% |
| Nid oes gen i fesurydd clyfar | 35% | 33% | 40% |
| Ddim yn gwybod | 2% | 1% | 2% |
| Byddai'n well gen i beidio â dweud | 2% | 1% | 1% |

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 2 2024. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. 'Ddim yn gwybod', 'Byddai'n well gen i beidio â dweud' ac 'Arall' wedi'u cynnwys yn yr ymateb 'Pawb'. Sylfaen = 943 (Rwyf i/rydym ni yn berchen ar y cartref = 684, Mae'n cael ei rentu = 221)

*Mae 'Rwyf i/rydym ni yn berchen ar y cartref' yn cynnwys perchnogaeth lwyr ac ar sail morgais

4.5 Dywedodd 40% o'r ymatebwyr eu bod yn gwirio eu defnydd o ynni o leiaf unwaith yr wythnos, a dywedodd 21% eu bod yn gwirio eu defnydd o ynni bob dydd (Ffigur 4.1).

**Ffigur 4.1: Amlder gwirio defnydd ynni – Ar hyn o bryd, pa mor aml ydych chi'n gwirio faint o ynni yr ydych chi'n ei ddefnyddio?**




Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 2 2024. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb, dim eithriadau. Sylfaen = 943

### Camau arbed ynni

4.6 Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi pa un a oeddent wedi cymryd unrhyw un o'r camau a restrwyd i arbed defnydd ynni (Ffigur 4.2).


4.7 Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr (94%) eu bod wedi cymryd o leiaf un cam i arbed ynni, beth bynnag fo'r rheswm am wneud hynny. Dywedodd 4% eu bod yn cymryd dim o'r camau a restrwyd, a dywedodd 2% nad oeddent yn gwybod neu ei bod yn well ganddynt beidio â dweud.

4.8 Y cam mwyaf cyffredin a gymerwyd i leihau defnydd ynni oedd diffodd y golau (86%), ac yna gwisgo dillad cynhesach (72%) a sychu dillad ar sychwr neu yn yr awyr agored (66%).

4.9 Y camau lleiaf cyffredin oedd gostwng tymheredd y dŵr poeth (37%), lleihau tymheredd llif y boeler (35%) a diffodd yr opsiwn cynhesu ymlaen llaw ar foeler combi (15%).

4.10 Ac eithrio 4 o'r pedwar ar ddeg o gamau arbed ynni a oedd wedi'u cynnwys yn yr arolwg (defnyddio llai o ddŵr poeth, tynnu plygiau dyfeisiau pan nad ydynt yn cael eu defnyddio, cadw rheiddiaduron yn glir a gostwng gosodiadau rheiddiaduron), roedd ymatebwyr sy'n byw yng nghefn gwlad neu mewn pentref bach yn dueddol o gymryd llai o gamau arbed ynni na'r rhai sy'n byw mewn mannau eraill (Ffigur 4.2). Er enghraifft, ar gyfer y cam arbed ynni o aros tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn i droi'r gwres ymlaen, dywedodd 45% o ymatebwyr yng nghefn gwlad neu mewn pentref bach eu bod yn gwneud hyn o'i gymharu â 53-71% mewn mathau eraill o ardal, ac ar gyfer gostwng tymheredd y boeler, dywedodd 27% o ymatebwyr yng nghefn gwlad neu mewn pentref bach eu bod yn gwneud hyn o'i gymharu â 36-41% mewn mathau eraill o ardal.

**Ffigur 4.2: Lleihau defnydd ynni yn ôl math o ardal – A ydych chi wedi cymryd unrhyw un o’r camau canlynol i leihau eich defnydd ynni?**





Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 2 2024. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. . *‘Arall’, ‘Dim o’r uchod’, ‘Ddim yn gwybod’ a ‘Byddai’n well gen i beidio â dweud’ heb eu cynnwys yn yr ymateb Cam ynni*. Sylfaen = 927 (Maestrefi = 290, Canol = 75, Pentref Mawr = 331, Cefn Gwlad = 231)

4.11 Roedd cyfran is o ymatebwyr yr oedd yn well ganddynt beidio â rhannu incwm eu haelwyd yn cymryd camau arbed ynni na'r rhai a rannodd incwm eu haelwyd (Ffigur 4.3). Mae'r gymhariaeth hon yn dangos patrymau tebyg pan fydd y data'n cael eu dadansoddi yn ôl math o ardal (Ffigur 4.2) gan fod cyfran uwch o ymatebwyr na rannodd eu hincwm yn byw yng nghefn gwlad neu mewn pentref bach.

4.12 O'r ymatebwyr a roddodd incwm eu haelwyd, roedd cyfran fwy o'r rhai ag incymau uwch yn cymryd mwy o gamau arbed ynni na'r rhai ag incymau is.

**Ffigur 4.3: Lleihau defnydd ynni yn ôl aelwyd – A ydych chi wedi cymryd unrhyw un o'r camau canlynol i leihau eich defnydd ynni?**




Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 2 2024. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. *'Arall', 'Dim o'r uchod', Ddim yn gwybod' a 'Byddai'n well gen i beidio â dweud' heb eu cynnwys yn yr ymateb Cam ynni, 'Ddim yn gwybod' heb ei gynnwys yn yr ymateb Incwm aelwyd*. Sylfaen = 903 (Hyd at £19,999 = 165, £20,000 i £49,999 = 341, £50,000+ = 180, Byddai'n well gen i beidio â dweud = 207)

**Effeithlonrwydd ynni**

4.13 Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa fesurau effeithlonrwydd ynni oedd ganddynt yn eu cartref. Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr (73%) bod ganddynt o leiaf un o'r mesurau effeithlonrwydd ynni yn eu cartref, ond dywedodd 23% nad oedd ganddynt unrhyw un o'r mesurau.


4.14 Y mesurau effeithlonrwydd ynni mwyaf cyffredin oedd bylbiau golau sy'n arbed ynni (67%) a phennau cawodydd sy'n arbed dŵr (17%).

4.15 Y mesurau effeithlonrwydd ynni lleiaf cyffredin oedd switshys amseru ar oleuadau (7%) a ffilmiau ffenestr solar neu wres (2%).

4.16 Roedd gan gyfran fwy o ymatebwyr ag incymau aelwyd uwch fesurau effeithlonrwydd ynni yn eu cartref na'r rhai ag incymau aelwyd is. Roedd gan 22% o'r ymatebwyr yr oedd eu hincwm aelwyd yn £50,000 neu uwch wresogi clyfar, o'i gymharu â 6% o'r ymatebwyr yr oedd eu hincwm aelwyd hyd at £19,999 (Ffigur 4.4). Yn yr un modd, roedd gan 21% o'r ymatebwyr yr oedd incwm eu haelwyd yn £50,000 neu uwch oleuadau clyfar, o'i gymharu â 4% o'r ymatebwyr yr oedd incwm eu haelwyd hyd at £19,999.

4.17 Roedd ymatebwyr ag incymau aelwyd is yn fwy tebygol o ddweud nad oedd ganddynt unrhyw un o'r mesurau arbed ynni a dywedodd 27 y cant o'r ymatebwyr yr oedd incwm eu haelwyd hyd at £19,999 bod ganddynt ddim o'r mesurau, o'i gymharu â 17% o'r ymatebwyr yr oedd incwm eu haelwyd yn £50,000 neu uwch.

**Ffigur 4.4: Mesurau effeithlonrwydd ynni yn ôl incwm aelwyd – Ceir rhestr isod o fesurau effeithlonrwydd ynni eraill. Pa rai, os o gwbl, sydd gennych chi yn eich cartref?'**





Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 2 2024. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. *'Ddim yn gwybod' a 'Byddai'n well gen i beidio â dweud' heb eu cynnwys yn yr ymateb Cam ynni, 'Ddim yn gwybod' heb ei gynnwys yn yr ymateb Incwm aelwyd*. Sylfaen = 903 (Hyd at £19,999 = 165, £20,000 i £49,999 = 341, £50,000+ = 190, Byddai'n well gen i beidio â dweud = 207)

4.18 Dangoswyd o archwilio'r ymatebion yn ôl statws cyflogaeth bod gan gyfrannau tebyg o ymatebwyr ym mhob grŵp fesurau effeithlonrwydd ynni. Fodd bynnag, roedd cyfran y rhai a oedd wedi ymddeol â goleuadau clyfar (4%) neu wresogi clyfar

(7%) yn is nag ar gyfer ymatebwyr cyflogedig, sef 12% a 14% yn eu trefn (Ffigur 4.5).

**Ffigur 4.5: Mesurau effeithlonrwydd ynni yn ôl statws cyflogaeth – Ceir rhestr isod o fesurau effeithlonrwydd ynni eraill. Pa rai, os o gwbl, sydd gennych chi yn eich cartref?'**




Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 2 2024. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. 'Byddai'n well gen i beidio â dweud' heb ei gynnwys yn yr ymateb Statws cyflogaeth. Sylfaen = 930 (Cyflogedig = 506, Di-waith = 77, Wedi ymddeol = 267, Myfyriwr = 39, Arall = 41)

**Ynglŷn â'ch ynni cartref: crynodeb**

4.19 Gofynnwyd i'r ymatebwyr am ddefnydd ynni yn y cartref a mesurau arbed ynni sy'n cael eu defnyddio.

4.20 Roedd dros dri chwarter yr holl ymatebwyr yn talu eu bil ynni trwy ddebyd uniongyrchol. Roedd yr ymatebwyr hyn yn dueddol o fod yn gyflogedig ac yn berchen ar eu cartref eu hunain. Roedd ymatebwyr di-waith a'r rhai a oedd yn rhentu eu llety yn fwy tebygol o ddefnyddio mesurydd talu ymlaen llaw.

4.21 Dywedodd bron i'r holl ymatebwyr eu bod wedi cymryd o leiaf un cam i arbed ynni, beth bynnag fo'r rheswm am wneud hynny. Roedd ymatebwyr sy'n byw yng nghefn gwlad neu mewn pentref bach yn dueddol o gymryd llai o gamau arbed ynni na'r rhai sy'n byw mewn mannau eraill. Roedd hyn hefyd yn wir ar gyfer ymatebwyr yr oedd yn well ganddynt beidio â rhannu incwm eu haelwyd.

4.22 Roedd gan gyfran fwy o ymatebwyr ag incymau aelwyd uwch fesurau effeithlonrwydd ynni yn eu cartrefi na'r rhai ag incymau aelwyd is, yn enwedig mesurau goleuadau a gwresogi clyfar.

# 5. Bwyd

5.1 Gofynnwyd i'r ymatebwyr am y bwyd y maent yn ei fwyta'n bersonol ac sy'n cael ei fwyta ar eu haelwyd.

**Deiet**

5.2 Roedd yr ymatebwyr yn bwyta cynhyrchion llaeth yn amlach nag unrhyw fath arall o fwyd, a dywedodd 66% o'r ymatebwyr eu bod yn bwyta cynhyrchion llaeth bob dydd (Tabl 5.1). Roedd 56% o'r ymatebwyr yn bwyta ffrwythau a llysiau bob dydd. Dywedodd 83% o'r ymatebwyr eu bod yn bwyta cig gwyn o leiaf unwaith yr wythnos, o'i gymharu â 62% ar gyfer pysgod neu fwyd môr, a 64% ar gyfer cig coch. Dywedodd 11% o'r ymatebwyr nad ydynt byth yn bwyta cig coch, a dywedodd 12% o'r ymatebwyr nad ydynt byth yn bwyta pysgod neu fwyd môr.

**Tabl 5.1: Amlder bwyta mathau o fwyd – 'Sawl diwrnod yr wythnos ydych chi'n bwyta bob un o'r pethau canlynol fel rheol?'**

| Amlder | Cynnyrch Llaeth | Cig Coch | Cig Gwyn | Pysgod / Bwyd Môr | Ffrwythau / Llysiau |
|---|---|---|---|---|---|
| Bob dydd | 66% | 2% | 4% | 1% | 56% |
| 5 i 6 diwrnod yr wythnos | 12% | 6% | 10% | 3% | 18% |
| 3 i 4 diwrnod yr wythnos | 10% | 19% | 35% | 12% | 13% |
| 1 i 2 ddiwrnod yr wythnos | 5% | 37% | 34% | 46% | 7% |
| Llai nag unwaith yr wythnos | 3% | 22% | 7% | 23% | 3% |
| Byth | 3% | 11% | 8% | 12% | 1% |
| Ddim yn gwybod | 0% | 1% | 0% | 1% | 1% |
| Byddai'n well gen i beidio â dweud | 1% | 1% | 1% | 1% | 1% |

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 2 2024. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb, dim eithriadau. Sylfaen = 943

5.3 Dywedodd ymatebwyr ag incwm aelwyd is eu bod yn bwyta ffrwythau a llysiau yn llai aml na'r rhai ag incymau aelwyd uwch. Roedd 64% o aelwydydd ag incwm hyd at £19,999 yn bwyta ffrwythau a llysiau o leiaf 5 diwrnod yr wythnos, o'i gymharu ag 86% o aelwydydd ag incwm o fwy na £50,000 (Tabl 5.2).

**Tabl 5.2: Mathau o fwyd sy'n cael eu bwyta yn ôl incwm – bob dydd a 5 i 6 diwrnod – 'Sawl diwrnod yr wythnos ydych chi'n bwyta bob un o'r pethau canlynol fel rheol?'**

| Math o Fwyd | Pawb | Hyd at £19,999 | £20,000 i £49,999 | £50,000+ | Byddai'n well gen i beidio â dweud |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynnyrch Llaeth | 78% | 77% | 74% | 81% | 82% |
| Cig Coch | 8% | 6% | 6% | 7% | 15% |
| Cig Gwyn | 14% | 10% | 15% | 15% | 13% |
| Pysgod / Bwyd Môr | 4% | 4% | 4% | 1% | 6% |
| Ffrwythau a Llysiau | 74% | 64% | 73% | 86% | 74% |

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 2 2024. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. 'Ddim yn gwybod' heb ei gynnwys yn yr ymateb Incwm aelwyd. Sylfaen = 903 (Hyd at £19,999 = 165, £20,000 i £49,999 = 341, £50,000+ = 190, Byddai'n well gen i beidio â dweud = 207)

5.4 Dywedodd ymatebwyr rhwng 18 a 34 oed eu bod yn bwyta cynhyrchion llaeth yn llai aml na grwpiau oedran hŷn. Roedd 71% o ymatebwyr 18 i 34 oed yn bwyta cynhyrchion llaeth o leiaf 5 diwrnod yr wythnos, o'i gymharu ag 81% o ymatebwyr 65 oed a hŷn (Tabl 5.3). Dywedodd ymatebwyr iau eu bod yn bwyta cig gwyn yn amlach, a chynhyrchion llaeth a ffrwythau a llysiau yn llai aml nag ymatebwyr hŷn.

**Tabl 5.3: Mathau o fwyd sy'n cael eu bwyta yn ôl oedran – bob dydd a 5 i 6 diwrnod – 'Sawl diwrnod yr wythnos ydych chi'n bwyta bob un o'r pethau canlynol fel rheol?'**

| Math o Fwyd | Pawb | 18 i 34 | 35 i 44 | 45 i 54 | 55 i 64 | 65+ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynnyrch Llaeth | 78% | 71% | 74% | 79% | 81% | 81% |
| Cig Coch | 8% | 8% | 10% | 6% | 8% | 9% |
| Cig Gwyn | 13% | 20% | 19% | 11% | 7% | 10% |
| Pysgod / Bwyd Môr | 4% | 3% | 4% | 4% | 3% | 7% |
| Ffrwythau a Llysiau | 74% | 65% | 72% | 73% | 77% | 80% |

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 2 2024. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. 'Byddai'n well gen i beidio â dweud' heb ei gynnwys yn yr ymateb Oedran. Sylfaen = 938 (18 i 34 = 182, 35 i 44 = 168, 45 i 54 = 149, 55 i 64 = 194, 65+ = 245)


**Gwastraff bwyd**

5.5 Pan ofynnwyd iddynt pa mor aml maent yn taflu bwyd sydd wedi "difetha" neu wedi mynd y tu hwnt i'w ddyddiad dod i ben, dywedodd 47% o ymatebwyr eu bod yn

gwneud hyn o leiaf unwaith yr wythnos, a dywedodd 12% nad ydynt byth yn gwneud hyn.

5.6 Dywedodd 20% o ymatebwyr 65 oed a hŷn eu bod byth yn taflu bwyd, o'i gymharu â 7-13% o ymatebwyr o gategorïau oed eraill (Ffigur 5.1).

**Ffigur 5.1: Taflu bwyd yn ôl oedran – 'Pa mor aml ydych mewn wythnos arferol y mae eich aelwyd angen taflu bwyd sydd wedi difetha neu wedi mynd y tu hwnt i'w ddyddiad dod i ben?'**




Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 2 2024. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. 'Byddai'n well gen i beidio â dweud' heb ei gynnwys yn yr ymateb Oedran. Sylfaen = 938 (18 i 34 = 182, 35 i 44 = 168, 45 i 54 = 149, 55 i 64 = 194, 65+ = 245)

5.7 Dywedodd 13% o'r ymatebwyr yr oedd incwm eu haelwyd yn £19,999 neu lai nad ydynt byth yn taflu bwyd, o'i gymharu ag 11% o'r ymatebwyr ag incwm aelwyd rhwng £20,000 a £50,000, a 13% o'r ymatebwyr ag incwm aelwyd sy'n fwy na £50,000. Dywedodd 16% o'r ymatebwyr yr oedd yn well ganddynt beidio â rhannu incwm eu haelwyd nad ydynt byth yn taflu bwyd.

5.8 Dywedodd 72% o'r ymatebwyr eu bod bob amser yn ailgylchu gwastraff bwyd yn hytrach na'i roi yn y sbwriel cyffredinol, a dywedodd 9% o'r ymatebwyr nad ydynt byth yn ailgylchu gwastraff bwyd.

5.9 Roedd ymatebwyr 65 oed a hŷn yn dueddol o ailgylchu gwastraff bwyd yn fwy rheolaidd (dywedodd 80% eu bod bob amser yn ailgylchu gwastraff bwyd) o'u cymharu ag ymatebwyr o grwpiau oedran eraill (62% o ymatebwyr 18 i 34 oed).


**Arferion cynaliadwy**

5.10 Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa arferion cynaliadwy y maent yn ymgymryd â nhw wrth siopa am fwyd neu goginio prydau. Y tri arfer mwyaf cyffredin oedd gwirio dyddiadau defnyddio olaf ac ar ei orau cyn (75%), gwirio cynnwys yr oergell neu'r rhewgell cyn mynd i siopa (70%), ac ail-wresogi neu ailddefnyddio bwyd dros ben (67%).

5.11 Y tri arfer lleiaf cyffredin oedd prynu bwyd gan fusnesau cynaliadwy (14%), compostio gwastraff bwyd gartref (22%) a phrynu bwyd tymhorol (26%).

5.12 Roedd cyfran lai o ymatebwyr sy'n byw yng nghefn gwlad neu mewn pentref bach yn ymgymryd â llawer o'r arferion cynaliadwy o'u cymharu â'r rhai sy'n byw mewn mathau eraill o ardal. Yr eithriad i hyn oedd compostio gwastraff bwyd, (roedd 26% o'r rhai yng nghefn gwlad neu mewn pentref bach yn gwneud hyn o'i gymharu ag 19-22% mewn mathau eraill o ardal), gwirio dyddiadau defnyddio olaf neu ar ei orau cyn bwydydd a brynwyd (69% o'i gymharu â 69-79% yn eu trefn), prynu bwyd tymhorol yn fwriadol (26% o'i gymharu â 23-30% yn eu trefn), a phrynu bwyd a dyfwyd yn lleol yn fwriadol (26% o'i gymharu â 26-33% yn eu trefn) (Ffigur 5.2).

**Ffigur 5.2: Arferion siopa am fwyd neu goginio prydau yn ôl math o ardal – 'A ydych chi'n gwneud unrhyw un o'r canlynol wrth siopa am fwyd neu goginio prydau?'**




Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 2 2024. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. 'Arall' a 'Ddim yn gwybod' heb eu cynnwys yn yr ymateb Arferion cynaliadwy. Sylfaen = 927 (Maestrefi = 290, Canol = 75, Pentref Mawr = 331, Cefn Gwlad = 231)

**Bwyd: crynodeb**

5.13 Gofynnwyd i'r ymatebwyr am y bwyd y maent yn ei fwyta.

5.14 Cynhyrchion llaeth oedd y math o fwyd sy'n cael ei fwyta amlaf gan yr holl ymatebwyr a physgod a chig coch oedd y rhai a oedd yn cael eu bwyta leiaf. Roedd ymatebwyr ag incymau aelwyd uwch yn bwyta ffrwythau a llysiau yn amlach nag ymatebwyr o grwpiau incwm aelwyd eraill. Roedd ymatebwyr rhwng 18 a 34 oed yn bwyta cig gwyn yn amlach a chynhyrchion llaeth a ffrwythau a llysiau yn llai aml nag ymatebwyr hŷn.

5.15 Dywedodd ymatebwyr 65 oed a hŷn eu bod yn taflu llai o fwyd ac yn ailgylchu gwastraff bwyd yn fwy rheolaidd nag ymatebwyr o grwpiau oedran eraill.

5.16 Roedd ymatebwyr sy'n byw yng nghefn gwlad neu mewn pentref bach yn ymgymryd â llai o arferion bwyd cynaliadwy na'r rhai sy'n byw mewn mathau eraill o ardal. Y prif eithriad i hyn oedd compostio gwastraff bwyd, lle dywedodd cyfran uwch o ymatebwyr sy'n byw yng nghefn gwlad neu mewn pentref bach eu bod yn gwneud hyn.

# 6. Bywyd dyddiol

6.1 Gofynnwyd i'r ymatebwyr am arferion cynaliadwy y gallent ymgymryd â nhw yn eu bywyd dyddiol.


**Arferion bywyd dyddiol**

6.2 Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa arferion cynaliadwy yr oeddent yn ymgymryd â nhw mewn bywyd dyddiol. Y tri arfer mwyaf cyffredin oedd rhoi neu werthu eitemau nad ydynt eu heisiau (68%), ailgylchu eitemau nad ydynt eu heisiau (68%), a defnyddio cynhyrchion amldro (65%).

6.3 Y tri arfer lleiaf cyffredin oedd dewis busnesau cynaliadwy (19%), benthyg neu rentu eitemau (19%) a phrynu cynhyrchion â llai o ddeunydd pacio (33%).

6.4 Dywedodd cyfran uwch o ymatebwyr benywaidd eu bod yn ymgymryd â llawer o'r arferion dyddiol cynaliadwy o'u cymharu ag ymatebwyr gwrywaidd. Y gwahaniaethau mwyaf oedd prynu ail law (60% i 41%), rhoi neu werthu eitemau nad ydynt eu heisiau (75% i 60%), a defnyddio cynhyrchion amldro (79% i 60%, Ffigur 6.1).


**Ffigur 6.1: Arferion cynaliadwy yn ôl rhywedd – ‘Hoffem ofyn i chi nawr am bethau y gallech eu gwneud yn eich bywyd dyddiol. Atebwch drosoch eich hun, nid eich aelwyd. A ydych chi’n gwneud unrhyw un o’r canlynol?’**




Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 2 2024. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. ‘Ddim yn gwybod’ a ‘Byddai’n well gen i beidio â dweud’ heb eu cynnwys yn yr ymateb Rhywedd. Sylfaen = 935 (Benywod = 513, Gwrywod = 422)

6.5 Dangosir yr ymateb yn ôl oedran yn Ffigur 6.2. Ymgymerir â rhai arferion gan gyfran fwy o ymatebwyr hŷn, e.e. trwsio pethau eich hun (65% o ymatebwyr 65 oed a hŷn) a siopa yn agos at eu cartref (67% o ymatebwyr 55 i 64 oed). Ymgymerwyd ag arferion eraill gan gyfran fwy o ymatebwyr iau, e.e. prynu ail law (62% o ymatebwyr 35 i 45 oed) a dewis busnesau cynaliadwy (24% o ymatebwyr 18 i 34 oed).

**Ffigur 6.2: Arferion cynaliadwy yn ôl oedran - 'Hoffem ofyn i chi nawr am bethau y gallech eu gwneud yn eich bywyd dyddiol. Atebwch drosoch eich hun, nid eich aelwyd. A ydych chi'n gwneud unrhyw un o'r canlynol?'**





Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 2 2024. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. 'Byddai'n well gen i beidio â dweud' heb ei gynnwys yn yr ymateb Oedran. Sylfaen = 938 (18 i 34 = 182, 35 i 44 = 168, 45 i 54 = 149, 55 i 64 = 194, 65+ = 245)

6.6 Dangosir yr ymateb yn ôl incwm yn Ffigur 6.3. Ymatebwyr yr oedd yn well ganddynt beidio â rhannu incwm eu haelwyd oedd â'r cyfrannau ymateb isaf ar gyfer pob categori. Roedd cyfran fwy o ymatebwyr ag incwm aelwyd uwch yn ymgymryd ag arferion cynaliadwy na'r rhai ag incwm aelwyd is. Yr eithriad i hyn oedd siopa yn

agos at eu cartref (roedd 66% o’r ymatebwyr ag incwm aelwyd hyd at £19,999 yn gwneud hyn, o’i gymharu â 57% ag incwm aelwyd mwy na £50,000), prynu eitemau ail law (59% o’r rhai ag incwm aelwyd hyd at £19,000, o’i gymharu â 59% o’r rhai ag incwm mwy na £50,000).

**Ffigur 6.3: Arferion cynaliadwy yn ôl incwm aelwyd - ‘Hoffem ofyn i chi nawr am bethau y gallech eu gwneud yn eich bywyd dyddiol. Atebwch drosoch eich hun, nid eich aelwyd. A ydych chi’n gwneud unrhyw un o’r canlynol?’**




Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 2 2024. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. ‘Ddim yn gwybod’ heb ei gynnwys yn yr ymateb Incwm aelwyd. Sylfaen = 903 (Hyd at £19,999 = 165, £20,000 i £49,999 = 341, £50,000+ = 190, Byddai’n well gen i beidio â dweud = 207)

**Bywyd dyddiol: crynodeb**

6.7 Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa arferion cynaliadwy yr oeddent yn ymgymryd â nhw mewn bywyd dyddiol.

6.8 Y tri arfer mwyaf cyffredin ar gyfer yr holl ymatebwyr oedd rhoi neu werthu eitemau nad ydynt eu heisiau, ailgylchu eitemau nad ydynt eu heisiau, a defnyddio cynhyrchion amldro. Roedd ymatebwyr benywaidd yn ymgymryd â mwy o arferion cynaliadwy nag ymatebwyr gwrywaidd.

6.9 Ar gyfer bron pob un o'r arferion cynaliadwy, roedd cyfran fwy o ymatebwyr ag incwm aelwyd uwch yn ymgymryd â nhw o'u cymharu â'r rhai ag incwm aelwyd is. Ymatebwyr yr oedd yn well ganddynt beidio â rhannu incwm eu haelwyd oedd â'r cyfrannau ymateb isaf ar gyfer pob arfer cynaliadwy. Roedd y grŵp hwn o ymatebwyr fel rheol yn hŷn ac yn berchen ar eu llety eu hunain.

# 7. Teithio

7.1 Gofynnwyd i'r ymatebwyr am ymddygiad teithio.

**Cerbydau sydd ar gael**

7.2 Gofynnwyd i'r ymatebwyr faint o gerbydau y mae gan eu haelwyd fynediad atynt yn rheolaidd. Roedd gan 51% o aelwydydd fynediad at un car, roedd gan 28% o aelwydydd fynediad at ddau gar, ac nid oedd gan 16% o aelwydydd fynediad at gar.

7.3 Nid oedd gan 34% o'r ymatebwyr ag incwm aelwyd o hyd at £19,999 fynediad at gar, o'i gymharu â 3% o'r ymatebwyr yr oedd incwm eu haelwyd yn £50,000 neu fwy (Tabl 7.1).

**Tabl 7.1: Mynediad aelwyd at gar yn ôl incwm aelwyd – 'Sawl cerbyd y mae gan eich aelwyd fynediad rheolaidd atynt? Car'**

| Nifer y ceir | Pawb | Hyd at £19,999 | £20,000 i £49,999 | £50,000+ | Byddai'n well gen i beidio â dweud |
|---|---|---|---|---|---|
| 0 | 16% | 34% | 11% | 3% | 19% |
| 1 | 51% | 48% | 54% | 41% | 57% |
| 2 | 28% | 15% | 29% | 48% | 19% |
| 3+ | 4% | 1% | 5% | 8% | 3% |
| Ddim yn gwybod | 0% | 1% | 1% | 0% | 0% |
| Byddai'n well gen i beidio â dweud | 1% | 1% | 1% | 1% | 2% |

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 2 2024. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb, 'Ddim yn gwybod' heb ei gynnwys yn yr ymateb Incwm aelwyd. Sylfaen = 903 (Hyd at £19,999 = 165, £20,000 i £49,999 = 341, £50,000+ = 190, Byddai'n well gen i beidio â dweud = 207)

7.4 Nid oedd gan 45% o'r ymatebwyr a oedd yn ddi-waith fynediad at gar, o'i gymharu â 10% o'r ymatebwyr a oedd yn gyflogedig.

7.5 Roedd cerbydau hybrid ar gael i 12% o'r holl aelwydydd a cherbydau trydan ar gael i 5%. Roedd 66% o'r ymatebwyr â mynediad at geir trydan yn gallu eu gwefru gartref.

7.6 O'r aelwydydd â mynediad at o leiaf un car /fan, roedd y cerbydau hybrid a thrydan a oedd ar gael yn cynyddu gydag incwm aelwyd cynyddol (Tabl 7.2).

**Tabl 7.2: Mynediad at gerbydau hybrid a thrydan yn ôl incwm ar gyfer aelwydydd â mynediad at o leiaf un car / fan – 'O'r cerbydau y mae gan eich aelwyd fynediad atynt, faint sy'n drydan a/neu'n hybrid?'**

| Math o Gerbyd | Pawb | Hyd at £19,999 | £20,000 i £49,999 | £50,000+ | Byddai'n well gen i beidio â dweud |
|---|---|---|---|---|---|
| Hybrid | 13% | 10% | 9% | 20% | 13% |
| Trydan | 4% | 4% | 4% | 9% | 1% |


Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 2 2024. *Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiynau i aelwydydd â mynediad at o leiaf un car / fan. 'Ddim yn gwybod' heb ei gynnwys yn yr ymateb Incwm aelwyd*. Sylfaen = 763 (Hyd at £19,999 = 110, £20,000 i £49,999 = 303, £50,000+ = 184, Byddai'n well gen i beidio â dweud = 166)

### Teithio yn ôl dull

*Car, trên a bws*

7.7 Rhoddir amlder teithio mewn car, ar drên ac ar fws yn Ffigur 7.1.

**Ffigur 7.1: Amlder teithio mewn car, ar drên ac ar fws – Pa mor aml ydych chi'n defnyddio bob un o'r canlynol i deithio o le i le?**




Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 2 2024. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb, dim eithriadau. Sylfaen = 943


7.8 Dywedodd 45% o'r ymatebwyr eu bod yn defnyddio car bob dydd, ac roedd 35% yn defnyddio car ddwywaith neu fwy yr wythnos ond nid bob dydd.

7.9 Dywedodd 1% o'r ymatebwyr eu bod yn defnyddio'r trên bob dydd, ac roedd 3% yn defnyddio'r trên 2 waith neu fwy yr wythnos ond nid bob dydd. O ran bysiau, roedd 4% o'r ymatebwyr yn eu defnyddio bob dydd, a 9% yn eu defnyddio 2 waith neu fwy yr wythnos ond nid bob dydd. Dywedodd 29% o ymatebwyr nad ydynt byth yn defnyddio trenau, a dywedodd 35% o ymatebwyr nad ydynt byth yn defnyddio bysiau.

*Beicio a cherdded / defnyddio cadair olwyn*

7.10 Rhoddir amlder teithio trwy feicio (beic safonol) a cherdded / defnyddio cadair olwyn yn Ffigur 7.2.

**Ffigur 7.2: Amlder teithio ar feic (safonol) a cherdded / defnyddio cadair olwyn – Pa mor aml ydych chi'n defnyddio bob un o'r canlynol i deithio o le i le?**




Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 2 2024. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb, dim eithriadau. Sylfaen = 943

7.11 Ar gyfer beicio (ar feic safonol), roedd 3% o'r ymatebwyr yn beicio bob dydd, ac roedd 3% yn beicio 2 waith neu fwy yr wythnos ond nid bob dydd, a 2% yn beicio unwaith yr wythnos. Dywedodd 13% o ymatebwyr gwrywaidd eu bod yn beicio o leiaf unwaith yr wythnos, o'i gymharu â 4% o ymatebwyr benywaidd.

7.12 Dywedodd 34% o'r ymatebwyr eu bod yn cerdded bob dydd i deithio o le i le (ac eithrio mynd am dro hamdden, fel mynd â'r ci am dro), ac roedd 23% yn cerdded 2 waith neu fwy yr wythnos ond nid bob dydd. Dywedodd 21% o'r ymatebwyr nad oeddent byth yn cerdded o le i le.

7.13 Roedd 10% o'r ymatebwyr yr oedd incwm eu haelwyd yn £50,000 neu fwy yn beicio o leiaf unwaith yr wythnos, o'i gymharu ag 8% o'r ymatebwyr yr oedd incwm eu haelwyd hyd at £19,999 neu rhwng £20,000 a £50,000, a 5% o'r ymatebwyr yr oedd yn well ganddynt beidio â rhannu incwm eu haelwyd (Tabl 7.3).

**Tabl 7.3: Amlder beicio (beic safonol) o leiaf unwaith yr wythnos yn ôl incwm – Pa mor aml ydych chi'n defnyddio bob un o'r canlynol i deithio o le i le? Beic (safonol)**

| Amlder | Pawb | Hyd at £19,999 | £20,000 i £49,999 | £50,000+ | Byddai'n well gen i beidio â dweud |
|---|---|---|---|---|---|
| O leiaf unwaith yr wythnos | 8% | 8% | 8% | 10% | 5% |

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 2 2024. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. 'Ddim yn gwybod' heb ei gynnwys yn yr ymateb Incwm aelwyd. Sylfaen = 903 (Hyd at £19,999 = 165, £20,000 i £49,999 = 341, £50,000+ = 190, Byddai'n well gen i beidio â dweud = 207)

7.14 Dywedodd ymatebwyr 65 oed a hŷn eu bod yn beicio'r lleiaf o'r holl grwpiau oedran, ag 84% yn dweud nad ydynt byth yn beicio (Tabl 7.4).

**Tabl 7.4: Amlder peidio â beicio byth (beic safonol) yn ôl oedran - Pa mor aml ydych chi'n defnyddio bob un o'r canlynol i deithio o le i le? Beic (safonol)**


| Amlder | Pawb | 18 i 34 | 35 i 44 | 45 i 54 | 55 i 64 | 65+ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Byth | 74% | 66% | 67% | 68% | 78% | 84% |

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 2 2024. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. 'Byddai'n well gen i beidio â dweud' heb ei gynnwys yn yr ymateb Oedran. Sylfaen = 938 (18 i 34 = 182, 35 i 44 = 168, 45 i 54 = 149, 55 i 64 = 194, 65+ = 245)

*Awyren*

7.15 Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa mor aml yr oeddent yn teithio ar awyren. Dywedodd 35% o'r ymatebwyr nad ydynt byth yn defnyddio awyren i deithio, ac roedd 20% yn defnyddio awyren bob 2 neu 3 blynedd, a 30% yn defnyddio awyren unwaith neu ddwy y flwyddyn (Ffigur 7.3).


**Ffigur 7.3: Amlder teithio ar awyren - Pa mor aml ydych chi'n defnyddio bob un o'r canlynol i deithio o le i le? (Awyren)**




Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 2 2024. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb, dim eithriadau. Sylfaen = 943

7.16 Dywedodd 53% o'r ymatebwyr yr oedd incwm eu haelwyd hyd at £19,999 nad oeddent byth yn teithio ar awyren o'i gymharu â 19% o'r ymatebwyr yr oedd incwm eu haelwyd yn £50,000 ac uwch (Ffigur 7.4). Roedd 41% o'r ymatebwyr yr oedd incwm eu haelwyd yn £50,000 ac uwch yn teithio ar awyren unwaith neu ddwywaith y flwyddyn o'i gymharu â 18% o'r ymatebwyr yr oedd incwm eu haelwyd hyd at £19,999. Ar gyfer teithio ar awyren 3 neu 4 gwaith y flwyddyn, 16% i 4% oedd y gymhariaeth rhwng yr un grwpiau incwm aelwyd.

**Ffigur 7.4: Amlder teithio ar awyren yn ôl incwm - Pa mor aml ydych chi'n defnyddio bob un o'r canlynol i deithio o le i le? (Awyren)**





Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 2 2024. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. 'Ddim yn gwybod' heb ei gynnwys yn yr ymateb Incwm aelwyd. Sylfaen = 903 (Hyd at £19,999 = 165, £20,000 i £49,999 = 341, £50,000+ = 190, Byddai'n well gen i beidio â dweud = 207)

**Ymddygiad teithio cynaliadwy**

7.17 Gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu hymddygiad teithio. Yr arfer teithio mwyaf cyffredin oedd cerdded neu ddefnyddio cadair olwyn pan fo'n bosibl (64%). Yr arferion lleiaf cyffredin oedd rhannu car (9%) a beicio pan fo'n bosibl (11%). Nid oedd 17% o'r ymatebwyr yn ymgymryd ag unrhyw un o'r arferion teithio cynaliadwy a nodir yn yr arolwg (Ffigur 7.5).


**Ffigur 7.5: Arferion teithio cynaliadwy - A ydych chi'n gwneud unrhyw un o'r canlynol wrth deithio o le i le?**




Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 2 2024. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb, dim eithriadau. Sylfaen = 943

7.18 Roedd cyfran is o ymatebwyr sy'n byw yng nghefn gwlad neu mewn pentref bach yn ymgymryd ag arferion teithio cynaliadwy na'r rhai sy'n byw mewn mathau eraill o ardal. Yr eithriadau i hyn oedd beicio lle'n bosibl a chadw at 60mya ac is wrth yrru i arbed tanwydd, lle'r oedd y rhai yng nghefn gwlad neu mewn pentref bach yn debyg i'r rhai mewn mathau eraill o ardal (Ffigur 7.6).

**Ffigur 7.6: Arferion teithio cynaliadwy yn ôl math o ardal – A ydych chi'n gwneud unrhyw un o'r canlynol wrth deithio o le i le?**




Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 2 2024. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. 'Ddim yn gwybod' a 'Byddai'n well gen i beidio â dweud' heb eu cynnwys yn yr ymateb Math o ardal. Sylfaen = 927 (Maestrefi = 290, Canol = 75, Pentref Mawr = 331, Cefn Gwlad = 231))

**Teithio gwyliau**

7.19 Gofynnwyd i'r ymatebwyr faint o wyliau yr oeddent wedi bod arnynt yn y 12 mis diwethaf. Roedd 60% o'r ymatebwyr wedi bod ar o leiaf un gwyliau domestig (Cymru neu weddill y DU), roedd 44% o'r ymatebwyr wedi bod ar o leiaf un gwyliau pellter byr (Ewrop), ac roedd 15% o'r ymatebwyr wedi bod ar o leiaf un gwyliau pellter maith (Tabl 7.5).


**Tabl 7.5: Cyfran yr ymatebwyr sy'n mynd ar wyliau - Yn y 12 mis diwethaf, faint o'r mathau canlynol o wyliau, os o gwbl, ydych chi wedi bod arnynt?**

| Math o Wyliau | Tri neu fwy | Dau | Un | Dim | Ddim yn gwybod | Byddai'n well gen i beidio â dweud |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Domestig | 18% | 17% | 25% | 38% | 1% | 1% |
| Pellter Byr (e.e. Ewrop) | 7% | 13% | 24% | 55% | 0% | 1% |
| Pellter Maith | 1% | 4% | 10% | 83% | 1% | 1% |

Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 2 2024. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb, dim eithriadau. Sylfaen = 943

7.20 Dywedodd 60% o ymatebwyr benywaidd a gwrywaidd eu bod wedi bod ar o leiaf un gwyliau domestig yn y 12 mis diwethaf (Ffigur 7.7). Fodd bynnag, dywedodd ymatebwyr gwrywaidd eu bod wedi bod ar fwy o wyliau pellter byr o'u cymharu ag ymatebwyr benywaidd (40% a 49% yn eu trefn) ac roedd ymatebwyr benywaidd wedi bod ar fwy o wyliau pellter maith nag ymatebwyr gwrywaidd (17% a 13% yn eu trefn).


**Ffigur 7.7: Cyfran yr ymatebwyr a aeth ar o leiaf un gwyliau yn y 12 mis diwethaf yn ôl rhywedd - Yn y 12 mis diwethaf, faint o’r mathau canlynol o wyliau, os o gwbl, ydych chi wedi bod arnynt?**




Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 2 2024. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. ‘Ddim yn gwybod’ a ‘Byddai’n well gen i beidio â dweud’ heb eu cynnwys yn yr ymateb Rhywedd. Sylfaen = 935 (Benywod = 513, Gwrywod = 422)

7.21 Roedd yr ymatebwyr yr oedd incwm eu haelwyd yn £50,000 ac uwch wedi bod ar fwy o wyliau yn y 12 mis diwethaf nag ymatebwyr o grwpiau incwm aelwyd eraill. Roedd 85% o’r ymatebwyr yr oedd incwm eu haelwyd yn £50,000 ac uwch wedi bod ar o leiaf un gwyliau domestig a 18% wedi bod ar o leiaf un gwyliau pellter maith (Ffigur 7.8). Mae hyn yn cymharu â 44% a 10%, yn eu trefn, o ymatebwyr yr oedd incwm eu haelwyd hyd at £19,999.

**Ffigur 7.8: Cyfran yr ymatebwyr a aeth ar o leiaf un gwyliau yn y 12 mis diwethaf yn ôl incwm - Yn y 12 mis diwethaf, faint o'r mathau canlynol o wyliau, os o gwbl, ydych chi wedi bod arnynt?**




Ffynhonnell: Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 2 2024. Amlddewis. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb. 'Ddim yn gwybod' heb ei gynnwys yn yr ymateb Incwm aelwyd. Sylfaen = 903 (Hyd at £19,999 = 165, £20,000 i £49,999 = 341, £50,000+ = 190, Byddai'n well gen i beidio â dweud = 207)

7.22 Ar gyfer gwyliau domestig, ni wnaeth 87% o'r ymatebwyr deithio ar awyren i gyrraedd eu cyrchfan gwyliau. Ar gyfer gwyliau pellter byr, ni wnaeth 11% o'r ymatebwyr deithio ar awyren.

**Teithio: crynodeb**

7.23 Gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu hymddygiad teithio.

7.24 Roedd mwyafrif yr holl ymatebwyr yn byw ar aelwyd â mynediad at o leiaf un cerbyd. Roedd gan gyfran is o ymatebwyr a oedd ag incwm aelwyd hyd at £19,999 neu a oedd yn ddi-waith fynediad at gerbyd o'u cymharu â grwpiau eraill. Roedd gan ymatebwyr ag incymau aelwyd uwch fynediad at fwy o gerbydau, mwy o gerbydau hybrid a thrydan, yn beicio'n amlach, yn teithio ar awyren yn amlach ac yn mynd ar fwy o wyliau nag ymatebwyr eraill.

7.25 Roedd ymatebwyr sy'n byw yng nghefn gwlad neu mewn pentref bach yn llai tebygol o fod wedi mabwysiadu arferion teithio cynaliadwy na'r rhai sy'n byw mewn mathau eraill o ardal.

# 8. Casgliad

8.1 Cynhaliwyd yr ail arolwg meintiol o chwe cham ym mis Chwefror a mis Mawrth 2024. Casglwyd set ddata a oedd yn gyffredinol gynrychiadol o boblogaeth Cymru.

8.2 Nodwyd manylion allbynnau'r arolwg yn yr adroddiad hwn, gan dynnu sylw at unrhyw is-grwpiau o'r boblogaeth â gwahanol agweddau neu ymddygiadau yng nghyswllt cwestiynau penodol. Bydd yr allbynnau yn cael eu cymharu â chamau blaenorol a dilynol i nodi unrhyw newidiadau i agweddau neu ymddygiadau.

**Myfyrdodau ac ystyriaethau ar gyfer dehongli'r allbynnau**

8.3 Gallai sawl ystyriaeth fethodolegol a dadansoddiadol effeithio ar y dehongliad o'r canfyddiadau.

8.4 Yn gyntaf, roedd dadansoddiad yr arolwg yn gwbl ddeunewidyn, sy'n golygu ei fod yn ystyried y berthynas rhwng dau newidyn ar y pryd yn unig. Nid yw'r dull hwn yn nodi sut y gallai ffactorau lluosog ryngweithio i ddylanwadu ar agweddau ac ymddygiadau unigolion o ran newid hinsawdd. Mae'n bosibl y gallai cysylltiadau a arsylwyd rhwng newidynnau demograffig ac agweddau neu ymddygiadau newid hinsawdd gael eu hesbonio gan newidynnau drysu. Byddai dadansoddiad amlnewidyn yn cynnig dealltwriaeth â mwy o bwyslais o benderfynyddion canfyddiadau a gweithredoedd newid hinsawdd, ac yn caniatáu rheolaeth ar gyfer cysylltiadau drysu.

8.5 Hefyd, ni phwysolwyd canlyniadau'r arolwg i adlewyrchu'r boblogaeth ehangach. Mae hyn yn golygu efallai nad yw'r canfyddiadau yn gynrychiadol o agweddau ac ymddygiadau'r cyhoedd yn gyffredinol.

8.6 Ystyriaeth arall yw'r ddibyniaeth ar y camau arolygu cynnar ar gyfer dod i gasgliadau. Mae absenoldeb camau pellach yn cynyddu'r risg y gallai unrhyw gysylltiadau a arsylwyd fod oherwydd siawns, ac yn cyfyngu'r gallu i olrhain newidiadau dros amser neu i gadarnhau sefydlogrwydd agweddau ac ymddygiadau a arsylwyd. Mae mesuriadau ailadroddus, a fydd yn cael eu darparu o gamau arolygu'r dyfodol, yn ofynnol i ddarganfod a yw'r cysylltiadau a nodwyd yn sefydlog neu'n agored i newidiadau dros amser.

8.7 Er bod y sampl yn gyffredinol gynrychiadol o'r cyhoedd yng Nghymru yn seiliedig ar ddemograffeg sampl allweddol, dangosodd yr arolwg fân wahaniaethau o ddata'r cyfrifiad ar gyfer lleoliad, galwedigaeth, deiliadaeth, a math o eiddo. Gallai hyn fod

wedi deillio, yn rhannol, o duedd hunan-ddethol. Gallai'r anghydbwysedd hwn yng nghyfansoddiad y sampl arwain at ganfyddiadau unochrog, gan y gallai safbwyntiau ac ymddygiadau grwpiau sydd wedi'u gorgynrychioli ddylanwadu ar y canlyniadau yn anghymesur, ac felly methu ag adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth yn gywir.

8.8 Ar y llaw arall, roedd maint sampl rhai grwpiau a ymyleiddiwyd, fel lleiafrifoedd ethnig penodol, yn rhy isel yn yr arolwg hwn i ddarparu gwybodaeth y gellir ei chyffredinoli. Efallai y bydd angen dulliau ategol eraill yn y dyfodol i wella dealltwriaeth am y rhai sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan newid hinsawdd a pholisïau hinsawdd.

8.9 Hefyd, ceir y potensial ar gyfer tuedd yn atebion yr ymatebwyr. Gallai cyfranogwyr, yn ymwybodol neu'n ddiarwybod, ddiwygio eu hymatebion oherwydd rhagfarnau neu ragdybiaethau cynhenid. Gallai hyn guddio gwir natur agweddau ac ymddygiadau'r cyhoedd o ran newid hinsawdd.

8.10 Yn olaf, efallai fod canfyddiadau'r arolwg wedi cael eu dylanwadu gan amgylchedd y cyfryngau. Gallai eitemau a oedd yn amserol yn y cyfryngau ar adeg yr arolwg fod wedi effeithio ar gryfder teimladau a fynegwyd gan ymatebwyr, o bosibl yn chwyddo agweddau neu bryderon penodol mewn ffyrdd nad ydynt yn cynrychioli safbwyntiau hirdymor yn gywir. Fel yr amlygwyd uchod, bydd camau'r dyfodol yn helpu i nodi a oedd hyn yn wir ai peidio.